University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru

Caerdydd | Casnewydd | Pontypridd

# DATGANIADAU ARIANOL
# ADOLYGIAD BLYNYDDOL

**2020/21**

Gwybodaeth ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf

**southwales.ac.uk**





## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Bwrdd Llywodraethwyr | 7 |
| Datganiad Strategol | 10 |
| Adolygiad o 2020/21 | 16 |
| Pwyllgorau'r Brifysgol | 27 |
| Cyfrifoldebau Pwyllgorau Allweddol | 28 |
| Adolygiad Ariannol | 30 |
| Datganiad Buddion Cyhoeddus | 37 |
| Llywodraethu Corfforaethol | 38 |
| Cyfrifoldebau'r Llywodraethwyr | 42 |
| Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol | 44 |
| Datganiad o Incwm Cynhwysfawr y Grŵp Cyfun a'r Brifysgol | 48 |
| Datganiad o Newidiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Grŵp Cyfun a'r Brifysgol | 49 |
| Mantolenni'r Grŵp Cyfun a'r Brifysgol | 50 |
| Datganiadau Cyfun o Lifau Arian Parod | 51 |
| Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu | 52 |
| Defnyddio Amcangyfrifon a Llunio Barn | 58 |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | 59-81 |

# RHAGAIR

Roedd yr angen i reoli pandemig parhaus Covid-19 ac amrywiol gyfyngiadau symud cenedlaethol a lleol yn golygu bod 2020-21 yn flwyddyn heriol arall. Fel y bu drwy gydol y pandemig, iechyd, llesiant a diogelwch ein myfyrwyr, cydweithwyr a chymuned fu ein prif flaenoriaeth. Rydym yn hynod falch o ymdrechion eithriadol pob un o'n cydweithwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gynnal safonau uchel o ran dysgu ac addysgu ac, ar yr un pryd, gadw pawb yn ddiogel ar y campws.

Dangosodd ein myfyrwyr gryn dipyn o wydnwch a gallu eithriadol i addasu, gan symud rhwng dysgu wyneb yn wyneb a digidol wrth i wahanol sefyllfaoedd o ran iechyd y cyhoedd godi. Bu'n amgylchedd hynod o heriol ac, yn anffodus, roedd canlyniadau ein Harolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr yn adlewyrchu hynny gyda gostyngiad mewn lefelau boddhad, a oedd yn cyd-fynd, fwy neu lai, â gweddill y sector yng Nghymru a'r DU. Fodd bynnag, mae sawl maes lle mae Prifysgol De Cymru yn parhau ar y blaen i'r sector ar ôl sawl blwyddyn o welliant, gan gynnwys ein gwaith asesu a'n hadborth a'n cymorth academaidd. Wrth i ni baratoi i ddarparu llawer mwy o ddysgu ac addysgu wyneb yn wyneb ar ein campws ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf, rydym yn dysgu o brofiadau ein myfyrwyr a'n cydweithwyr ac yn gwella ein harlwy yn barhaus.

Rydym wedi parhau i chwarae ein rhan yn y frwydr yn erbyn Covid-19 – o'n nyrsys dan hyfforddiant ar y rheng flaen a fu'n helpu i gyflwyno'r rhaglen frechu i'n gwyddonwyr sydd wedi parhau â'u gwaith ar ddatblygu prawf diagnostig cyflym ar gyfer Covid-19. Rydym wedi cynnal cyrsiau byr am ddim i bobl a oedd ar ffyrlo neu allan o waith oherwydd y pandemig er mwyn eu helpu i fagu hyder a datblygu sgiliau digidol. Rydym hefyd wedi cynnig cymorth i entrepreneuriaid a busnesau er mwyn eu helpu i reoli effaith y pandemig ar eu mentrau busnes. Mae un o Ganolfannau Profion PCR Covid y GIG yn dal i fod wedi'i lleoli ar ein Campws ym Mhontypridd ac, ym mis Tachwedd y llynedd, gwnaethom hefyd sefydlu Canolfannau Profion Llif Unffordd i'n myfyrwyr a'n cydweithwyr yn Nhrefforest, Caerdydd a Chasnewydd. Yn ystod cyfnod anodd i'n cymunedau, mae'r budd cyhoeddus a ddarperir gennym a'n effaith wedi bod yn amlwg.

Fodd bynnag, nid dim ond canolbwyntio ar reoli'r pandemig a wnaethom y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r brifysgol wedi parhau i fuddsoddi, datblygu ac arloesi. Yn 2020 gwnaethom lansio Strategaeth 2030 sy'n nodi cyfeiriad beiddgar ac uchelgeisiol ar gyfer y degawd nesaf. Gan ganolbwyntio ar gael effaith gadarnhaol a newid bywydau ein myfyrwyr, ein cydweithwyr a'n cymunedau, byddwn yn parhau i sicrhau bod partneriaeth wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym wedi buddsoddi yn ein seilwaith ffisegol a'n seilwaith TG er mwyn i ni allu addasu a rhoi ffyrdd mwy hyblyg newydd o ddysgu, addysgu a gweithio ar waith. Mae datgarboneiddio yn hanfodol i weithredu a chynnal amgylchedd prifysgol cynaliadwy a dyna pam gwnaethom hefyd ddatblygu strategaeth garbon newydd i Brifysgol De Cymru a chyhoeddi ein huchelgais i fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2040.

Rydym hefyd wedi dathlu llawer o lwyddiannau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Prifysgol De Cymru oedd yr unig brifysgol yng Nghymru a gafodd ei chydnabod fel Canolfan Ragoriaeth Academaidd mewn Addysg Seiberddiogelwch gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a chafodd ei henwi'n Brifysgol Seiber y Flwyddyn am yr ail flwyddyn yn olynol. Ym mis Gorffennaf, gwnaethom ennill contract gwerth miliynau o bunnau i gyflwyno cyrsiau gofal iechyd dros y 10 mlynedd nesaf, gan gynyddu ein niferoedd wedi'u contractio ym maes iechyd yn sylweddol – gan ddangos hyder parhaus yn ein gallu i gyflwyno ein darpariaeth bresennol yn ogystal ag ychwanegu sawl cwrs newydd i'n portffolio o wyddorau gofal. Mae ymchwilwyr yn ein timau amgylchedd cynaliadwy a chreadigol wedi ffurfio partneriaeth â diwydiant a'r byd academaidd ac mae grantiau ymchwil a datblygu sylweddol wedi'u dyfarnu iddynt er mwyn helpu i ysgogi newid a datblygiadau arloesol yn eu priod feysydd. Rydym yn parhau i gael ein hysbrydoli gan holl gyflawniadau ein cydweithwyr a'n myfyrwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac rydym yn falch iawn o'r cyflawniadau hynny. Yn olaf, fis Rhagfyr diwethaf, cyhoeddodd yr Athro Julie Lydon OBE y byddai'n ymddeol ar ôl treulio 15 mlynedd yn y Brifysgol - yr 11 mlynedd diwethaf fel yr Is-Ganghellor. Fel yr Is-Ganghellor benywaidd cyntaf yng Nghymru mae Julie wedi gwneud cyfraniad nodedig nid yn unig at ein Prifysgol ond hefyd y sector addysg uwch ehangach. Ar ran y Brifysgol gyfan, hoffem ddiolch i Julie am ei harweinyddiaeth wych a'i hymrwymiad i'r Brifysgol a'n gwerthoedd – byddwn yn gweld ei heisiau'n fawr.

**Dr Ben Calvert**
Is-Ganghellor

**Louise Evans**
Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr



**DATBLYGODD GWYDDONWYR YM MHRIFYSGOL DE CYMRU BRAWF COVID-19 CYFLYM YN Y MAN LLE Y RHODDIR GOFAL, A ALLAI GANFOD HAINT MEWN 20-30 MUNUD.**



# LLYWODRAETHWYR ANNIBYNNOL

**Llywodraethwyr Annibynnol**
Louise Evans (Cadeirydd) (4/4)
Graham Edwards (tan 31 Gorffennaf 2021) (0/4)
Alison Phillips (3/4)
Michael Stevens (4/4)
Chris Sutton (4/4)
Jemma Terry (4/4)
John Derrick (4/4)
Debbie Jones (4/4)
Yr Athro Philip Gummett (4/4)
David Francis (o 1 Ebrill 2021) (1/1)
Steve Wilson (o 19 Ebrill 2021) (1/1)
Richard Lloyd-Owen (o 1 Ebrill 2021) (1/1)
Sanjay Balakrishnan (o 21 Mehefin 2021) (1/1)
Sion O'Connor (o 1 Awst 2021)

**Is-Ganghellor**
Yr Athro Julie Lydon (tan 31 Awst 2021) (4/4)
Dr Ben Calvert (o 1 Medi 2021)

**Aelod cyfetholedig â phrofiad ym maes addysg**
Yr Athro Michael Gunn (4/4)

**Aelodau cyfetholedig y Bwrdd Gweithredol**
Dr Ben Calvert (tan 31 Gorffennaf 2021) (4/4)
Mark Milton (3/4)
Catherine Thomas (o 1 Awst 2021)

**Aelod cyfetholedig ychwanegol a etholwyd o blith y staff a gan y staff**
Angela Lewis (4/4)

**Enwebai'r Bwrdd Academaidd**
Dr Louise Bright (tan 31 Gorffennaf 2021) (3/4)

**Myfyrwyr-Lywodraethwyr**
Shannon Lee (tan 12 Mawrth 2021) (2/2)
Kay Dennis (o 15 Mawrth 2021) (2/2)
Cobi Flowers (o 10 Mai 2021) (1/1)

**Gwrthdaro buddiannau**
Mae aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr a'i bwyllgorau yn cyflwyno cofrestr o fuddiannau flynyddol. Cyn dechrau pob cyfarfod o'r Bwrdd a'i Bwyllgorau, gofynnir i'r aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau, yn gyffredinol neu o ran eitemau penodol ar yr agenda[1].

**Aelodau Annibynnol**
Diffinnir aelodau annibynnol[2] gan Offeryn Llywodraethu'r Brifysgol, ni allant gynnwys staff, myfyrwyr nac aelodau etholedig o awdurdodau lleol a rhaid i o leiaf hanner yr holl lywodraethwyr fod yn aelodau annibynnol. Mae gan yr aelodau annibynnol yr awdurdod i gymeradwyo penodi aelodau annibynnol newydd.

() Darperir gwybodaeth am bresenoldeb ar gyfer aelodau a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021, a fynegir fel nifer cyfarfodydd Bwrdd y Llywodraethwyr yr oedd yr aelod yn bresennol ynddynt allan o gyfanswm y cyfarfodydd yr oedd disgwyl iddo fod yn bresennol ynddynt.

Mae lluniau ar gael ar y dudalen nesaf: Bwrdd y Llywodraethwyr | Prifysgol De Cymru

**Aelodau Bwrdd Gweithredol y Brifysgol**
Yr Athro Julie Lydon (Is-Ganghellor)
Dr Ben Calvert (Dirprwy Is-Ganghellor)
Yr Athro Paul Harrison (Dirprwy Is-Ganghellor (Arloesi ac Ymgysylltu)
Mark Milton (Prif Swyddog Gweithredol)
Yr Athro Martin Steggall (Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil a Phrofiad Myfyrwyr) Catherine Thomas (Pennaeth Datblygu Sefydliadol)
Darren Xiberras (Prif Swyddog Cyllid)

[1]Erthygl 18: Os bydd gan unrhyw aelod unrhyw fuddiant ariannol neu deuluol neu unrhyw fuddiant personol arall, uniongyrchol neu anuniongyrchol, mewn unrhyw gontract, contract arfaethedig neu fater arall a'i fod yn bresennol yng nghyfarfod Bwrdd y Llywodraethwyr neu'r pwyllgor lle y bydd y contract neu'r mater arall yn cael ei ystyried, rhaid i'r aelod, yn y cyfarfod, a chyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo ddechrau, ddatgelu'r ffaith ac, oni chytunir fel arall drwy benderfyniad y cyfarfod, adael y cyfarfod cyn i'r eitem honno gael ei hystyried, peidio â chymryd rhan yn y broses o ystyried neu drafod y contract neu'r mater arall na phleidleisio ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag ef. Ni chaiff Llywodraethwr ei drin fel person sydd â buddiant ariannol mewn unrhyw fater dim ond am ei fod yn aelod o staff neu'n un o fyfyrwyr y Sefydliad.

[2]Offeryn 3 (3): Bydd aelodau annibynnol yn bersonau yr ymddengys i'r awdurdod penodi fod ganddynt brofiad o faterion diwydiannol, masnachol neu gyflogaeth neu o ymarfer unrhyw broffesiwn a'u bod wedi dangos bod ganddynt allu yn y meysydd hynny.

# BWRDD Y LLYWODRAETHWY


Louise Evans (Cadeirydd)


Jemma Terry


Graham Edwards


Debbie Jones


Alison Phillips


Yr Athro Philip Gummett


Michael Stevens


David Francis


Chris Sutton


Steve Wilson


Richard Lloyd-Owen


Mark Milton


Shannon Lee



Sanjay Balakrishnan


Catherine Thomas


Kay Dennis


John Derrick


Angela Lewis


Cobi Flowers


Dr Ben Calvert


Sion O'Connor


Yr Athro Michael Gunn


Dr Louise Bright

# DATGANIAD STRATEGOL

Ym Mhrifysgol De Cymru, ein diben craidd yw cael effaith gadarnhaol a bod yn uchelgeisiol dros ein myfyrwyr a'n cydweithwyr. Rydym yn canolbwyntio ar gynhwysiant, mentergarwch a thwf ac rydym yn bartner y profwyd y gellir ymddiried ynddo er mwyn sicrhau budd a llwyddiant i'r ddwy ochr yn yr hirdymor. Rydym yn falch ein bod wedi'n gwreiddio yn Ne Cymru gyda chyrhaeddiad byd-eang a'n bod yn grëwr arloesol gwybodaeth ac atebion ar gyfer y dyfodol. Mae'r diben hwn yn llywio ein gweledigaeth, ein nodau strategol a'n galluogwyr a'r ffordd rydym yn canolbwyntio ein gweithgareddau ac yn eu cyflawni. Mae Strategaeth 2030 Prifysgol De Cymru yn nodi ein cyfeiriad ar gyfer y degawd nesaf; llwybr ar gyfer y dyfodol sy'n feiddgar ac yn uchelgeisiol er mwyn sicrhau ein llwyddiant parhaus a'n cynaliadwyedd hirdymor.

Mae ein byd yn newid yn gyflym iawn a'n rôl ni yw sicrhau bod gan ein myfyrwyr y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen i wireddu eu potensial ac achub ar gyfleoedd yn y dyfodol ym myd gwaith.

Gan gydweithio â diwydiant, bydd ein gwaith ymchwil ac arloesi yn mynd i’r afael â rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd, o ynni i iechyd a diogelwch a darparu atebion i broblemau go iawn.

**Dros y degawd nesaf, ein huchelgeisiau yw:**

- Bod yn Brifysgol ranbarthol fawr ag arlwy academaidd amser llawn a rhan amser nodedig sy'n ddeniadol i farchnadoedd domestig a byd-eang
- Sicrhau profiad gwych, cynhwysol a diddorol i fyfyrwyr
- Sicrhau bod ein myfyrwyr yn cwblhau eu hastudiaethau yn llwyddiannus ac yn cael swyddi yn eu meysydd arbenigedd
- Ymgysylltu â phartneriaid er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ar eu gweithgareddau
- Ymrwymo i wella llesiant y cymunedau a wasanaethir gennym yn y dyfodol drwy weithredu'n unigol ac ar y cyd
- Cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ledled y rhanbarth a thu hwnt gael addysg uwch a symud ymlaen i addysg uwch
- Bod yn gyflogwr ymgysylltiol sy'n seiliedig ar werthoedd
- Bod yn ariannol gynaliadwy yng nghyd-destun amgylchedd addysg uwch dynamig

# EIN GWELEDIGAETH

## EIN GWELEDIGAETH YW NEWID BYWYDAU A'N BYD ER GWELL. BYDDWN YN BRIFYSGOL FLAENLLAW YN Y DU, GAN SICRHAU'R EFFEITHIAU CADARNHAOL MWYAF POSIBL AR GYFER MYFYRWYR, PARTNERIAID A CHYMUNEDAU.

> **BYDD EIN PORTFFOLIO YN CANOLBWYNTIO AR ANGHENION MYFYRWYR A CHYFLOGWYR O RAN SGILIAU.**

## EIN GWERTHOEDD

Wrth weithredu ein strategaeth a hyrwyddo addysg er budd y cyhoedd, mae'r Brifysgol yn ceisio cadw at y gwerthoedd craidd canlynol yn ein holl weithgareddau.

**Proffesiynol**
Byddwn yn gwneud y canlynol:
- Gweithredu ag Uniondeb i sicrhau bod pobl yn gallu ymddiried ynom a dibynnu arnom
- Cymryd cyfrifoldeb yn unigol ac ar y cyd am gyfrannu at ein nodau strategol a'n galluogwyr
- Ceisio rhagoriaeth ym mhopeth a wnawn

**Ymatebol**
Byddwn yn gwneud y canlynol:
- Bod yn hyblyg ac yn ystwyth, gan groesawu newid a hyrwyddo cydraddoldeb a chynnwys ym mhopeth a wnawn
- Bod yn hawdd mynd atom, gan geisio adborth i ddatblygu'n barhaus
- Bod yn atebol am gyflawni ein hamcanion personol ac amcanion ein tîm

**Creadigol**
Byddwn yn gwneud y canlynol:
- Meithrin chwilfrydedd ac arloesedd fel bod syniadau'n gallu blodeuo
- Cofleidio syniadau newydd
- Mentro a herio ffyrdd presennol o weithio i greu effaith gadarnhaol

**Ysbrydoli**
Byddwn yn gwneud y canlynol:
- Bod yn angerddol ynglŷn â dathlu llwyddiant
- Bod yn ddynamig, yn symbylol ac yn gymhellol
- Creu cyfleoedd sy'n ehangu ein gorwelion ni ein hunain a gorwelion ein myfyrwyr

**Cydweithredol**
Byddwn yn gwneud y canlynol:
- Cydweithio ym mhob rhan o'n Prifysgol ac yn allanol er budd pawb
- Bod yn gynhwysol a gwerthfawrogi a pharchu pob unigolyn am ei gyfraniad
- Nodi a chyfleu arferion a syniadau gorau

## EIN NODAU

### Sicrhau bod graddedigion yn llwyddo hyd eithaf eu gallu a'u bod yn cael cynifer o gyfleoedd â phosibl

**Arlwy academaidd nodedig**
Bydd ein portffolio yn canolbwyntio ar anghenion myfyrwyr a chyflogwyr o ran sgiliau.

Bydd proses ddatblygu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a arweinir gan y farchnad a fydd yn meithrin enw da mewn meysydd lle rydym yn gryf ac mewn marchnadoedd sy'n tyfu ac yn datblygu yn y DU ac yn rhyngwladol.

Caiff ei lunio ar y cyd â diwydiant, ei ddiweddaru'n rheolaidd a'i gydnabod yn broffesiynol.

Bydd ein cwricwlwm yn sicrhau hunaniaeth broffesiynol a bydd yn gysylltiedig â heriau rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang.

“

**BYDD EIN TIMAU YMCHWIL YN CANOLBWYNTIO AR DDARPARU ATEBION PERTHNASOL SY’N CAEL EFFAITH I BROBLEMAU SY’N EFFEITHIO AR GYMDEITHAS A’R ECONOMI.**

**Dysgu, addysgu a phrofiadau myfyrwyr trawsnewidiol**
Caiff dysgu seiliedig ar broblemau a heriau ei ymgorffori ym mhob rhaglen, er mwyn datblygu priodoleddau graddedigion, sef arloesedd a mentergarwch, arweinyddiaeth, rheoli prosiectau, llythrennedd digidol, ymwybyddiaeth fasnachol a chyfathrebu.

Bydd dysgu mewn tîm amlddisgyblaethol yn cysylltu â phroblemau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, er mwyn llywio camau gweithredu ac atebion.

Bydd ein cwricwlwm yn creu ymdeimlad dwfn o berthyn, ymgysylltu, rhwydweithio a balchder.

Caiff ymgysylltu â chyn-fyfyrwyr ei ymgorffori ym mywyd myfyrwyr, yn arbennig mentora a chefnogi llwyddiant graddedigion.

Bydd gan fyfyrwyr lais cynhwysol yn y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm.

**Atebion gweithle a dysgu gydol oes**
Bydd cyfleoedd dysgu yn y gweithle proffesiynol estynedig a gwell, gan gynnwys prentisiaethau gradd.

Bydd cyfleoedd a modelau cyflwyno newydd, arloesol a hyblyg ar gyfer DPP.

Byddwn yn canolbwyntio mwy ar gyfleoedd dysgu cyfunol ac ar-lein er mwyn cyrraedd marchnad ehangach.

## Effaith rhagoriaeth ymchwil ac arloesedd

**Galluoedd ymchwil ardderchog yn rhyngwladol**
Byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu ein meysydd ymchwil mawr eu heffaith sydd ag enw da yn rhyngwladol yn gyflymach ac ar fuddsoddi ynddynt:
- Creadigol
- Troseddu, diogelwch a chyfiawnder
- Iechyd a lles
- Amgylchedd cynaliadwy

Byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu arferion addysgeg arloesol, gan gynnwys y defnydd o dechnolegau newydd.

**Effaith ar ymchwil ac arloesedd**
Bydd ein timau ymchwil yn canolbwyntio ar ddarparu atebion perthnasol sy'n cael effaith i broblemau sy'n effeithio ar gymdeithas a'r economi.

Bydd dysgu ac addysgu yn seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth o'n heffaith ar ymchwil ac arloesedd mewn diwydiant ac yn y gymuned.

Byddwn yn cefnogi, yn meithrin ac yn dangos talent ac uchelgais ein hymchwil ac arloesedd.

**Cyfnewid gwybodaeth a sgiliau er budd myfyrwyr a phartneriaid strategol**
Bydd ein partneriaethau strategol mawr yn mynd i'r afael â heriau byd-eang ac yn gweithredu fel catalyddion ar gyfer dylanwad a chymorth ehangach.

Bydd ein gwaith cydweithredol yn canolbwyntio ar wella cynhyrchiant, sicrhau mwy o arloesi a chael mwy o effaith economaidd.

Bydd yn gweithredu fel pont ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng myfyrwyr, cyflogwyr a buddiannau cymunedol.

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn ysbrydoli a chefnogi entrepreneuriaeth myfyrwyr.

# EIN GALLUOGWYR

## Ein ffocws allanol

### Addysg Uwch Hygyrch

Bydd gweithio gyda phartneriaid i wella cyrhaeddiad addysgol a hyrwyddol mynediad i addysg uwch a chyfranogi ynddi yn flaenoriaeth.

Byddwn yn gweithio er mwyn sicrhau mwy o gyfleoedd Addysg Uwch mewn Addysg Bellach ledled ein rhanbarth a thu hwnt.

Bydd gwell cymorth i alluogi myfyrwyr o gymunedau a grwpiau a dangynrychiolir lwyddo mewn addysg uwch.

Bydd cynnydd yn symudedd myfyrwyr rhyngwladol sy'n dod i'r brifysgol ac yn ei gadael.

### Cyfraniad at lesiant economaidd a chymdeithasol

Rydym yn ymrwymedig i wella llesiant y cymunedau a wasanaethir gennym yn y dyfodol, drwy weithredu'n unigol ac ar y cyd ag eraill, ledled ein rhanbarth, gan gynnwys cefnogi nodau llesiant Llywodraeth Cymru.

Rydym yn meithrin cydberthnasau rhwng diwydiant a chymunedau, gan weithredu fel catalydd a phont, er enghraifft, drwy ymchwil seiliedig ar ymarfer ac arloesedd sy'n canolbwyntio ar atebion i broblemau go iawn.

Bydd meithrin cydberthnasau cefnogol, ymddiriedus a phroffesiynol ag arweinwyr dinesig, er mwyn sicrhau newid cadarnhaol a'r canlyniadau gorau posibl i'n rhanbarth a thu hwnt, yn flaenoriaeth.

Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar werth economaidd a chymdeithasol ein campysau fel sefydliad angor er budd ein partneriaid a'n cymunedau.

Rydym yn ymrwymedig i wneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygu'r Gymraeg.

### Sefydliad cysylltiedig a chyfrifol

Byddwn yn dyfnhau ein partneriaethau strategol rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol er budd y ddwy ochr, gan gynnwys datblygu modelau i fodloni gofynion partneriaeth.

Byddwn yn gwella ein gweithgarwch ymgysylltu â'n rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr er mwyn cynnal rhwydwaith eiriolaeth a chymorth am oes.

Byddwn yn cyfleu ein diben a'u gwerth yn eglur, gydag uniondeb a brwdfrydedd.

Byddwn yn ymgorffori egwyddorion cyfrifoldeb amgylcheddol a chorfforaethol yn ein hymarfer.

## Ein trawsnewidiad gweithredol

### Staff talentog ac uchelgeisiol â ffocws

Gydag ymdeimlad dwfn o berthyn, ffocws a balchder yn ein gwaith, bydd diwylliant 'un brifysgol' sy'n seiliedig ar werthoedd.

Bydd gan bob cydweithiwr ethos o wella dysgu ac addysgu yn barhaus, gyda staff wedi'u grymuso i arloesi a chydweithio er mwyn datblygu ein hymarfer addysgegol arloesol.

Byddwn yn weithlu sy'n perfformio'n dda ac yn arloesi'n ddigidol, sydd wedi'i alinio â'n gwerthoedd craidd, ein nodau a'n blaenoriaethau gwaith.

Bydd gennym weithle cynhwysol sy'n cefnogi amrywiaeth ac yn hyrwyddo cydweithio a llesiant.

**Gweithrediadau sy'n addas i'r dyfodol**
Byddwn yn atgyfnerthu ein hystad ac yn gwella ein seilwaith digidol.

Byddwn yn defnyddio mannau hyblyg a thechnolegau i alluogi arferion addysgegol ac arferion gwaith arloesol.

Bydd ein gwasanaethau yn effeithlon ac yn arloesol a byddant yn diwallu anghenion ein myfyrwyr, ein staff a'n partneriaid.

Byddwn yn darparu gwybodaeth busnes amserol a chyson, gyda fframwaith llywodraethu a rheoli data effeithiol, er mwyn llywio a grymuso prosesau gwneud penderfyniadau.

**Cryfder ariannol**
Bydd ein sefydliad yn un cynaliadwy a all ehangu'n gyflym, gyda modelau gweithredol a masnachol sy'n ymgorffori ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd.

Byddwn yn tyfu ac yn amrywiaethu ein hincwm er mwyn cynhyrchu gwargedion i'w hailfuddsoddi yn ein diben craidd.

**RYDYM YN YMRWYMEDIG I WELLA LLESIANT Y CYMUNEDAU A WASANAETHIR GENNYM YN Y DYFODOL.**



ADOLYGIAD O 2020/21

## UCHAFBWYNTIAU ALLWEDDOL Y FLWYDDYN DDIWETHAF A'R CYNNYDD SYDD WEDI'I WNEUD O RAN CYFLAWNI AMCANION EIN CYNLLUN STRATEGOL

Cafodd blwyddyn academaidd 2020/21 ei dominyddu i raddau helaeth gan bandemig Covid-19. Er gwaethaf amodau heriol a chyfyngiadau symud pellach, parhaodd cydweithwyr a myfyrwyr y Brifysgol i ragori, yn academaidd ac yn broffesiynol, er mwyn helpu i gyflawni nodau strategol Strategaeth 2030 Prifysgol De Cymru.



Ym mis Ebrill, enwyd Dr Ben Calvert yn Is-ganghellor newydd y Brifysgol. Ymgymerodd Ben â'r rôl o fis Medi 2021 ar ôl i'r Athro Julie Lydon OBE ymddeol. Ben oedd y Dirprwy Is-Ganghellor ym Mhrifysgol De Cymru ac arweiniodd y portffolio academaidd â ffocws cryf ar ansawdd ein darpariaeth dysgu ac addysgu ac ar wella'r ddarpariaeth honno.


### Nod Strategol Un: Sicrhau bod graddedigion yn llwyddo hyd eithaf eu gallu a'u bod yn cael cynifer o gyfleoedd â phosibl

**Springboard PDC**
Lansiodd Prifysgol De Cymru fenter Springboard a'i rhaglen interneiaeth ar gyfer cyflogadwyedd i raddedigion i ddosbarth 2020 a chyn-fyfyrwyr yn ystod haf 2020. Mae menter Springboard Prifysgol De Cymru yn gynllun cyflogadwyedd i alluogi graddedigion o Brifysgol De Cymru fanteisio ar gyfleoedd a hyfforddiant cyflogadwyedd o ansawdd uchel ym mhob rhan o'r Brifysgol. Cyflwynwyd y rhaglen er mwyn sicrhau bod graddedigion yn cael y llwyddiant mwyaf posibl wedi'i alinio â Strategaeth 2030 y Brifysgol, ac mewn ymateb uniongyrchol i her marchnad lafur i raddedigion yr oedd pandemig Covid-19 wedi effeithio arni.

Datblygwyd Springboard Prifysgol De Cymru gan gyfadrannau ac adrannau gwasanaethau proffesiynol (gyrfaoedd, cyn-fyfyrwyr, menter myfyrwyr, adnoddau dynol, strategaeth a chaffael) yn ogystal â deorfa fusnes Prifysgol De Cymru, sef Start-up Stiwdio, i'w chyflwyno yn ystod y flwyddyn i'r graddedigion yr oedd y pandemig wedi effeithio arnynt fwyaf.

I ddechrau, roedd y rhaglen ar gael i holl raddedigion 2020. Mae'n cynnig y canlynol:
- Hyd at 20 o leoliadau prosiect 16 wythnos â thâl ym mhob rhan o'r Brifysgol, sy'n cynnwys ILM Lefel 3 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth (mae pob interneiaeth yn werth £10k).
- Dyfarniad Pitsio Springboard i Fusnesau Newydd (a lansiwyd yn ystod Wythnos Entrepreneuriaeth y Byd, gwerth £20k) wedi'i anelu at Ddosbarth 2020 o entrepreneuriaid graddedig.
- Cyfarwyddyd a chymorth gyrfaoedd, gyda mynediad at Gyn-fyfyrwyr Prifysgol De Cymru, cyfarwyddyd gyrfaoedd a gwybodaeth gydamserol ac anghydamserol ddigidol.

Mae'r rhaglen yn adeiladu ar raglen interneiaeth a lleoliadau llwyddiannus y Brifysgol i raddedigion a gyflwynwyd dros y pum mlynedd diwethaf. Mae ein model Sgiliau a Chyflogadwyedd yn cwmpasu ffocws galwedigaethol ar fyfyrwyr a graddedigion (Adeiladu eich Dyfodol Gyda'n Gilydd) ac fe'i lluniwyd er mwyn cael yr effaith strategol sefydliadol fwyaf posibl, gan ddarparu, eleni, gynifer o gyfleoedd â phosibl o fewn yr amlen gyllido o £230k.







**01 – Prifysgol De Cymru yn ennill contract gwerth miliynau o bunnau ar gyfer addysg gofal iechyd**

Enillodd y Brifysgol gontract gwerth miliynau o bunnau i barhau i gyflwyno cyrsiau gofal iechyd dros y degawd nesaf. Gan ddechrau ym mis Medi 2022, bydd y contract yn ychwanegu tri chwrs newydd at bortffolio gwyddorau gofal Prifysgol De Cymru, sef Ymarferydd Adran Lawdriniaeth, Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol.

**02 – Prifysgol De Cymru yn cael ei henwi ymhlith y sefydliadau addysg gorau ar gyfer cyrsiau creadigol**

Enwyd y Brifysgol ymhlith yr 20 o sefydliadau addysgol gorau yn y byd ar gyfer Dylunio a Datblygu Animeiddiadau a Gemau 3D, ac ymhlith y 50 o ysgolion gorau yn y byd ar gyfer Cyfryngau Creadigol ac Adloniant, gan sefydliad ar-lein The Rookies a gymeradwyir gan y diwydiant.




**03 – Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI)**

Daeth Prifysgol De Cymru yn rhan o Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI), cyd-fenter a oedd yn bodoli eisoes rhwng Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Gyda'i gilydd, mae'r tri sefydliad yn gweithio i gynyddu sgiliau a chymhwysedd digidol y gweithlu gofal iechyd.




**04 – Myfyrwyr newyddiaduraeth o Brifysgol De Cymru yn cael eu hanrhydeddu**

Cafodd myfyrwyr a graddedigion newyddiaduraeth eu cydnabod yn Seremoni Wobrwyo Cyngor Hyfforddiant Newyddiaduraeth Ddarlledu. Enillodd rhaglen a grëwyd gan fyfyrwyr y categori Diwrnod Newyddion Rhithwir/Ar-lein Gorau, yn ogystal â Gwobr Steve Harris am yr eitem fwyaf nodedig a gyflwynwyd i'r gystadleuaeth. Enwyd eitem nodwedd y myfyriwr graddedig Dan Moffat ar Ynys y Barri yn Rhaglen Ddogfen Radio Orau.


**05 – Myfyriwr ar y brig yn arholiadau ACCA**

Bryony Lewis oedd yr ail fyfyriwr o Brifysgol De Cymru mewn dwy flynedd i ennill 'gwobr y cyntaf yn y byd' mewn arholiadau proffesiynol. Sgoriodd y marc cydradd uchaf ledled y byd yn arholiad Trethiant Uwch ACCA.






**06 – Diploma i Raddedigion mewn Ymarfer Plismona Proffesiynol**
Wyth swyddog o Heddlu Dyfed Powys oedd y rhai cyntaf yng Nghymru a Lloegr i gwblhau'r Diploma i Raddedigion mewn Ymarfer Plismona Proffesiynol, a gyflwynwyd gan Brifysgol De Cymru. Nhw oedd y garfan gyntaf i gwblhau'r Rhaglen Mynediad i Ddeiliaid Gradd.




**07 – PDC yn ennill Gwobr Arloesedd UA**
Enillodd y Brifysgol Wobr Arloesedd Cynghrair y Prifysgolion am fynd i'r afael â her tlodi digidol myfyrwyr, wrth i gyfyngiadau symud gael eu cyflwyno yn y wlad. Cafodd mwy na 200 o gyfrifiaduron wedi'u dadgomisiynu eu hailbwrpasu ar gyfer myfyrwyr nad oedd ganddynt y dechnoleg i gael mynediad i'w dysgu a'u haddysgu o bell.

University of South Wales
IN PARTNERSHIP WITH
QA
08

**08 – Partneriaeth â QA Higher Education**
Bydd partneriaeth â QA Higher Education yn cyflwyno Coleg Llwybr yng Nghaerdydd a Phontypridd. Bydd y rhaglenni yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu gallu yn y Saesneg a sgiliau astudio academaidd ac yn cynnig cyfleoedd i symud ymlaen i amrywiaeth o gyrsiau.




**09 – Myfyriwr graddedig mewn peirianneg yn ennill gwobr**
Dyfarnwyd gwobr 'Myfyriwr Gorau' Frederic Barnes Waldron i Matthew Hunter, myfyriwr graddedig mewn peirianneg o Brifysgol De Cymru, gan Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol (IMechE) ar ôl iddo gael anrhydedd dosbarth cyntaf yn ei radd Peirianneg Fecanyddol sydd wedi'i achredu gan IMechE.





**10 – PDC yn cynhyrchu'r nifer mwyaf o Brif Swyddogion Gweithredol yng Nghymru**
Mae Prifysgol De Cymru wedi cynhyrchu mwy o brif swyddogion gweithredol nag unrhyw brifysgol arall yng Nghymru yn ôl Hitachi Capital Invoice Finance, a ddadansoddodd ddata o gyn-fyfyrwyr a oedd wedi gadael prifysgolion yn y DU ers 2000. Roedd 8.15% o gyn-fyfyrwyr y Brifysgol wedi mynd ymlaen i fod yn Brif Swyddogion Gweithredol neu'n Rheolwyr-Gyfarwyddwyr neu roeddent wedi sefydlu eu busnesau eu hunain.




**11 – Cyn-fyfyrwyr o Brifysgol De Cymru yn gweithio ar ffilmiau a enwebwyd am Oscar**
Gweithiodd 22 o gyn-fyfyrwyr o Brifysgol De Cymru ar ffilmiau a roddwyd ar y rhestr fer ar gyfer 93ain Seremoni Wobrwyo'r Academi (2021), yn y categorïau Ffilm Nodwedd wedi'i Hanimeiddio ac Effeithiau Gweledol. Roedd y graddedigion wedi astudio Animeiddio, Animeiddio Cyfrifiadurol ac Effeithiau Gweledol, a Graffeg Symud ym Mhrifysgol De Cymru yn flaenorol.

## Nod Strategol Dau: Effaith rhagoriaeth ymchwil ac arloesedd



**Prawf ar gyfer Covid-19**
Ar ddechrau pandemig Covid-19, aeth gwyddonwyr o Brifysgol De Cymru ati i ddatblygu prawf ar gyfer Covid-19 er mwyn gallu nodi'n gyflym a yw pobl wedi'u heintio â feirws isorweddol SARS-CoV-2. Mae'r prawf, sy'n seiliedig ar dechnoleg ddiagnostig foleciwlaidd (mwyhau isothermol dolen-gyfryngol (LAMP)) yn addas ar gyfer profi unigolion yn y man lle rhoddir gofal gan nad oes angen unrhyw gyfarpar prosesau cymhleth na chyfarpar diagnostig drud a gan ei fod yn gallu nodi a yw pobl wedi'u heintio o fewn 20-30 munud. Cafodd y prawf ei dreialu gyda gweithwyr gofal iechyd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a defnyddiwyd y canlyniadau i fireinio cywirdeb a pherfformiad y dechnoleg ddiagnostig foleciwlaidd sylfaenol. Dangosodd yr ymchwil fod y prawf yn perfformio'n dda o gymharu â threfn brofi swyddogol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Creodd Prifysgol De Cymru gysylltiadau cryf â diwydiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru a GIG Gymru er mwyn datblygu'r prawf a'r ddyfais ddarllen. Gan weithio gyda GX Group, cynhyrchodd y Brifysgol ddyfais ddarllen electronig sy'n prosesu canlyniadau'r prawf a helpodd BioMonde i gynhyrchu'r pecyn profi. At hynny, gwnaeth y gwyddonwyr ddylunio a threialu swab poer/trwyn unigryw wedi'i argraffu ar argraffwyr 3D ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Cafodd y gwaith datblygiadol hwn gymorth ariannol o gronfa Ymateb i Covid, Ymchwil a Datblygu, ac Atebion Arloesol Llywodraeth Cymru.

Dywedodd Dr Emma Hayhurst, un o'r gwyddonwyr arweiniol ar y prosiect hwn: "Mantais y prawf hwn yw ei fod yn gyflym ac yn gludadwy. Mae cymaint o bosibiliadau o ran sut y gellir defnyddio'r prawf hwn, er enghraifft, mewn cartrefi gofal, ysbytai, meysydd awyr, labordai deintyddol, meddygfeydd a hyd yn oed longau mordeithio. I ddechrau, gwnaethom droi'r cysyniad, a oedd yn seiliedig ar brawf roeddem wedi bod yn ei ddatblygu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf i ganfod Heintiau'r Llwybr Wrinol, yn realiti o fewn cwpl o wythnosau yn unig."


Dywedodd Dr Catherine Moore, Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol o Ganolfan Feiroleg Iechyd Cyhoeddus Cymru: "Mae'n gyffrous gweithio gyda Phrifysgol De Cymru ar yr hyn a allai fod yn system pwynt gofal wirioneddol symudol. Ar ôl gweld y model prototeip, mae'n amlwg bod cryn dipyn o ystyriaeth wedi'i rhoi i'r dyluniad er mwyn iddo allu cael ei ddefnyddio y tu allan i'r labordy/ysbyty."

Mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru, mae Llusern Scientific Ltd bellach wedi'i greu er mwyn masnacheiddio'r prawf a'r ddyfais ddarllen sydd wedi'u nodi â CE-IVD ac wedi'u cofrestru ag MHRA ar gyfer Covid-19 a feirysau eraill.




### 01 – Cytundeb masnachol ar gyfer technoleg storio hydrogen

Llofnododd Prifysgol De Cymru a Hydro-Québec gytundebau masnachol i drosglwyddo technoleg storio hydrogen wedi'i phatentu, a ddatblygwyd yn y Brifysgol, fel rhan o ymdrechion parhaus i ddatgarboneiddio diwydiant. Mae'r dechnoleg yn ei gwneud yn bosibl i hydrogen gael ei amsugno i ddeunydd mewn crynodiadau ac ar ddwyseddau uwch, gan gynyddu ei gapasiti i storio.




### 02 – Clwstwr Diwydiannol De Cymru

Enwyd Prifysgol De Cymru yn bartner academaidd Clwstwr Diwydiannol De Cymru, sef consortiwm o rai o brif sefydliadau diwydiannol, ynni, seilwaith, cyfreithiol, academaidd a pheirianyddol Cymru, sydd wedi ymuno â'i gilydd i weithio ar brosiect gwerth £37m i ymchwilio i ddatgarboneiddio diwydiant yn Ne Cymru.




### 03 – Prifysgol Seiber y Flwyddyn

Enwyd Prifysgol De Cymru yn Brifysgol Seiber y Flwyddyn am yr ail flwyddyn yn olynol. Cydnabu'r wobr, a roddir i'r rhai sy'n ymrwymedig i seiberarloesedd, lleihau seiberdroseddau ac atal dinasyddion ar-lein, Academi Seiberddiogelwch Genedlaethol Prifysgol De Cymru, a sefydlwyd yn 2016, a'i chydweithrediadau cenedlaethol.




### 04 – Consortiwm media.cymru

Ymunodd Prifysgol De Cymru â Chonsortiwm media.cymru, sef cais gwerth £50m i ddatblygu clwstwr o'r radd flaenaf ar gyfer arloesedd ym maes y cyfryngau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd y 24 o sefydliadau sy'n gweithio ym meysydd addysg, darlledu, technoleg, cynhyrchu ym myd y cyfryngau ac arweinyddiaeth leol, yn ysgogi twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy.




### 05 – Cymorth ymchwil Prifysgol De Cymru ar gyfer Wallace & Gromit: Big Fix Up

Darparodd y Brifysgol gymorth ymchwil ar gyfer Wallace & Gromit: Big Fix Up, sef y prosiect realiti estynedig cyntaf i'r cymeriadau. Fel rhan o'r prosiect, a gafodd gymorth ariannol gan Ymchwil ac Arloesi yn y DU, bu Prifysgol De Cymru yn gweithio gyda stiwdio animeiddio Aardman, a Fictioneers: sy'n gonsortiwm o gwmnïau Prydeinig.




**06 – Arbenigwr ym maes Plismona a Diogelwch o Brifysgol De Cymru yn cadeirio grŵp cynghori'r Swyddfa Gartref**
Penodwyd yr Athro Christian Kaunert o Brifysgol De Cymru, sy'n arbenigo ym maes plismona a diogelwch, yn Gydgadeirydd Grŵp Cynghori Gweledigaeth Ffiniau (BVAG) y Swyddfa Gartref. Mae'r Grŵp yn cynnig cyfleoedd i arbenigwyr weithio ochr yn ochr â Llu'r Ffiniau er mwyn ysgogi ymchwil academaidd a llywio'r gwaith o roi atebion ffiniau a seilwaith porthladdoedd arloesol ar waith.

**07 – Y tîm troseddeg yn helpu i ddod o hyd i bobl sydd ar goll**
Mae myfyrwyr a staff o'r adran droseddeg wedi ymuno â'r grŵp ymchwil achosion nas datryswyd Locate International er mwyn helpu i chwilio am bobl sydd ar goll. Mae tîm Locate o arbenigwyr yn canolbwyntio ar ymchwiliadau i lofruddiaethau a throseddau difrifol nas datryswyd, gan ddefnyddio atebion arloesol er mwyn helpu i ddatrys yr achosion.







## Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru


**01 – Y coleg yn cyrraedd cynulleidfaoedd rhyngwladol newydd**
Wrth i berfformiadau cerddorol a dramatig Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar gyfer cynulleidfaoedd symud ar-lein, cyrhaeddodd yr arlwy digidol newydd ymhellach nag erioed o'r blaen, gan gynnwys cynulleidfaoedd rhyngwladol yn Japan, Canada, UDA, Awstralia a Corea.

**02 – Cynnwys digidol am ddim i gartrefi gofal**
Yn ystod y cyfyngiadau symud, cysylltodd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru â chartrefi gofal ledled Cymru gan gynnig cynnwys digidol am ddim er mwyn helpu i ddifyrru preswylwyr.










**03 – Addysgu wyneb yn wyneb**
Gan fod addysgu wyneb yn wyneb yn hollbwysig i hyfforddiant ymarferol Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, llwyddodd y coleg i agor ei ddrysau i nifer cyfyngedig o fyfyrwyr bob dydd o'r flwyddyn academaidd, diolch i amrywiaeth o fesurau rheoli gofalus.

**04 – Rhaglen BMus wedi'i hailddilysu**
Llwyddodd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i ailddilysu ei raglen BMus uchelgeisiol a thrawsnewidiol, sydd wedi'i hail-greu ac sy'n ymateb i anghenion diwydiant a chymdeithas yn y dyfodol.

## Coleg Merthyr Tudful

### 01 – Blwyddyn arall o lwyddiant eithriadol o ran canlyniadau Safon Uwch a chanlyniadau Galwedigaethol

Er gwaethaf y tarfu a achoswyd gan bandemig Covid-19, rhagorodd y coleg ar ei safonau a oedd eisoes yn uchel gyda set hynod lwyddiannus arall o ganlyniadau Safon Uwch a chanlyniadau Galwedigaethol yn ystod haf 2021. Gan atgyfnerthu ei safle fel un o'r colegau gorau yng Nghymru, llwyddodd y coleg i sicrhau cyfradd lwyddo gyffredinol o 99% mewn arholiadau Safon Uwch (A*-E), gyda 41% o'r myfyrwyr yn cael y graddau uchaf posibl, sef A*-A.



### 02 – Gwobr Hyfforddiant y Dywysoges Frenhinol

Roedd y coleg yn falch iawn o fod wedi cyrraedd safon rhagoriaeth yn erbyn y dilysnodau sydd eu hangen i gael Gwobr Hyfforddiant y Dywysoges Frenhinol, sy'n dangos ein hymrwymiad i sicrhau profiad addysgu a dysgu eithriadol i bawb.




### 03 – Ysgolion Arddangos Ddeori Microsoft

Mae Coleg Merthyr Tudful wedi ennill statws Ysgolion Arddangos Ddeori Microsoft er mwyn cydnabod ei ymrwymiad parhaus i arwain arloesi ym maes datblygiad proffesiynol.

Mae statws Deori, sef y cam cyntaf yn nhaith drawsnewidiol y coleg tuag at ennill statws llawn Ysgol Arddangos Microsoft erbyn 2023, yn atgyfnerthu gweledigaeth y coleg i ddatblygu arweinyddiaeth, dysgu, technoleg a seilwaith digidol sy'n ysbrydoli ac yn grymuso staff i feithrin eu gallu a'u harbenigedd ym maes dysgu digidol.




### 04 – Lansio Academi Golff newydd

Gan weithio mewn partneriaeth â Golff Cymru a Chlwb Golff Castell Morlais ym Merthyr Tudful, mae'r coleg wedi lansio academi golff newydd sbon. Nod yr academi yw darparu rhaglen gyfoethogi gynhwysol a fydd ar gael i bob dysgwr ac, ar yr un pryd, gynnig llwybr perfformiad a hyfforddiant i'r golffwyr hynny sy'n awyddus i ddatblygu eu hunain fel chwaraewr perfformiad ochr yn ochr â'u hastudiaethau academaidd.






### 05 – Lansio ystafell e-chwarae newydd sbon a chwrs e-chwaraeon lefel 3

Ym mis Mehefin 2021, lansiodd Coleg Merthyr Tudful ystafell e-chwaraeon newydd sbon yn llwyddiannus. Mae'r cyfleuster penodedig newydd, a fydd yn helpu i gyflwyno cymhwyster BTEC e-chwaraeon y coleg yn ogystal â gweithredu fel lleoliad chwarae gemau a chystadlu i Dîm E-chwaraeon Prydeinig y coleg, yn cynnwys 25 o safleoedd chwarae gemau a monitorau perfformiad newydd sbon, cadeiriau chwarae gemau Nitro Concepts, pecyn ffrydio byw a set deledu fawr â sgrin cyffwrdd.

## TUEDDIADAU ALLWEDDOL O RAN PERFFORMIAD Y BRIFYSGOL

Parhaodd effaith pandemig Covid-19 i gael ei theimlo ym mhob rhan o'r sector Addysg Uwch yn ystod blwyddyn academaidd 2020/21. Er hyn, roedd rhai gwelliannau cadarnhaol ym meysydd cadw myfyrwyr, graddau anrhydedd da a chanlyniadau graddedigion.

Er bod recriwtio yn heriol, roedd nifer terfynol y myfyrwyr newydd a gofrestrodd ar gyrsiau yn uwch na'r disgwyliadau roedd y Brifysgol wedi'u pennu. Llwyddodd Prifysgol De Cymru i recriwtio cryn nifer o fyfyrwyr rhyngwladol a pharhaodd i ddenu'r gyfran uchaf o fyfyrwyr ehangu cyfranogiad yn y sector Cymreig.

Mae cyfraddau cadw myfyrwyr hefyd wedi gwella, gyda nifer yr israddedigion llawn amser newydd sy'n byw yn y DU a barhaodd â'u dysgu yn cynyddu un pwynt canrannol uwchlaw ei meincnod, sy'n adlewyrchu demograffeg y boblogaeth o fyfyrwyr ym Mhrifysgol De Cymru. Cafodd y cyfraddau tynnu'n ôl ac atal dros dro ar gyfer myfyrwyr eu monitro bob wythnos drwy gydol y flwyddyn academaidd a chynhaliwyd y sefyllfa hon.

Parhawyd i fabwysiadu dull dim anfantais ym mlwyddyn academaidd 2020/21 er mwyn helpu myfyrwyr i symud ymlaen a chyflawni eu potensial. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar gyfran y graddau anrhydedd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch a ddyfarnwyd i fyfyrwyr.

Gwellodd canlyniadau graddedigion ychydig, gyda 79% o raddedigion Prifysgol De Cymru yn 2018/19 yn gweithio 18 mis ar ôl cwblhau eu cyrsiau, o gymharu â 77% o'r garfan a raddiodd yn 2017/18. Mae Prifysgol De Cymru yn cymharu'n dda â Sector y DU a SAUau sy'n gymaryddion wrth edrych ar y mesur "Ar y Trywydd Iawn". Dyma ganran y myfyrwyr sy'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r gosodiad "Mae fy ngweithgarwch presennol yn cyd-fynd â'm cynlluniau ar gyfer y dyfodol".

Perfformiodd Prifysgol De Cymru yn dda yn nhablau cynghrair 2021, gan godi 32 o safleoedd yn y Guardian University Guide (i safle 66 yn y DU), 24 o safleoedd yn y Times Good University Guide (i safle 90 yn y DU) ac 11 o safleoedd yn y Complete University Guide (i safle 91 yn y DU).

Roedd canlyniadau mwy heriol yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, sy'n mesur boddhad myfyrwyr israddedig yn eu blwyddyn olaf, gyda boddhad myfyrwyr yn gostwng ym mron pob sefydliad Addysg Uwch. Gwelwyd gostyngiad cyfartalog o 8% ym mhob rhan o'r sector AU, gyda Phrifysgol De Cymru yn cofnodi gostyngiad ychydig yn fwy, sef 9%, gydag amrywiadau sylweddol rhwng cyrsiau a phynciau.

Er mwyn cefnogi gwaith strategaeth 2030, datblygodd Prifysgol De Cymru gynllun datblygu portffolio tair blynedd sy'n cyd-fynd â'r nodau strategol. Datblygwyd y cynllun er mwyn sicrhau bod cyrsiau Prifysgol De Cymru yn diwallu anghenion y farchnad gyflogaeth yn y dyfodol wedi'i alinio â'n cryfderau. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi dechrau ar ddatblygiadau o ran sut rydym yn cyflwyno ein haddysgu, ein dysgu a'n gwaith asesu wedi'u halinio unwaith eto â'r strategaeth, er mwyn ymgorffori dysgu seiliedig ar heriau a arweinir gan gyflogwyr.

> **"ER MWYN CEFNOGI GWAITH STRATEGAETH 2030, DATBLYGODD PRIFYSGOL DE CYMRU GYNLLUN DATBLYGU PORTFFOLIO TAIR BLYNEDD SY'N CYD-FYND Â'R NODAU STRATEGOL.**

## GWEITHIO GYDA MYFYRWYR

Ym Mhrifysgol De Cymru rydym yn gwerthfawrogi ein cydberthynas waith gadarnhaol a chynhyrchiol ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol De Cymru. Mae ein myfyrwyr yn rhan hanfodol o'r Brifysgol – y gorffennol, y presennol a'r dyfodol – ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod llais y myfyriwr yn parhau i fod yn rhan annatod o'r gwaith o ddarparu addysg a phrofiad myfyrwyr o ansawdd uchel.

### Pandemig Covid-19

Drwy gydol pandemig Covid-19, cadw pobl yn ddiogel a sicrhau eu bod yn parhau i ddysgu fu ein blaenoriaeth. Mae'n amlwg bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar bawb, gan gynnwys ein myfyrwyr, sydd wedi parhau'n wydn gan ganolbwyntio ar eu haddysg. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi gweithio'n agos gyda'r Brifysgol drwy gydol y pandemig, gan gynrychioli myfyrwyr a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed wrth gynllunio ac ymateb i'r amgylchedd allanol cyfnewidiol. Er bod addysg wedi gorfod cael ei chyflwyno mewn ffordd wahanol eleni, mae timau cyrsiau wedi sicrhau bod yr holl ddeilliannau dysgu wedi cael eu cyflwyno a'u cyflawni, wrth i'n myfyrwyr barhau i raddio'n llwyddiannus o dan amgylchiadau heriol.

"

**DOSBARTHODD PRIFYSGOL DE CYMRU DALIADAU GWERTH £350 I TUA 16,000 O FYFYRWYR. Y MYFYRWYR HYN OEDD Y RHAI Y NODWYD EU BOD YN FWY TEBYGOL O FOD WEDI DIODDEF CALEDI ARIANNOL YN YSTOD Y PANDEMIG.**

### Cronfa Cymorth Covid-19 i Fyfyrwyr

Sefydlwyd Cronfa Cymorth Covid-19 i Fyfyrwyr er mwyn cefnogi myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac sy'n wynebu caledi ariannol o ganlyniad i'r pandemig. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr o Brifysgol De Cymru a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer un o gymwysterau Prifysgol De Cymru yn un o'n colegau AB partner. Fe'i hariannwyd gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Ar ddechrau 2021, darparodd CCAUC £40m i'r holl SAUau yng Nghymru er mwyn iddynt roi cymorth ariannol yn uniongyrchol i fyfyrwyr. Rheolodd y Brifysgol y gwaith o ddosbarthu taliadau gwerth £350 i tua 16,000 o fyfyrwyr. Y myfyrwyr hyn oedd y rhai y nodwyd eu bod yn fwy tebygol o fod wedi dioddef caledi ariannol yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys myfyrwyr o'r DU yr oedd eu cyfeiriad cartref mewn ardal â lefelau uchel o amddifadedd, a oedd yn dod o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd neu ethnig leiafrifol neu nad oedd gan eu rhieni unrhyw gymwysterau Addysg Uwch. Roedd myfyrwyr o'r DU a'r UE a myfyrwyr rhyngwladol hefyd yn gymwys i gael yr arian os oeddent yn ofalwr, os oeddent wedi gadael gofal neu os oeddent wedi cofrestru anabledd â Phrifysgol De Cymru, yn ogystal â myfyrwyr a oedd wedi hunanddatgan caledi o ganlyniad i'r pandemig. Yn ogystal â pherthyn i o leiaf un o'r categorïau uchod, roedd yn rhaid i fyfyrwyr hefyd fod yn astudio yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21 a bod yn astudio o leiaf 25% neu fwy o gwrs llawn amser. Dosbarthwyd tua 8,000 o daliadau pellach gwerth £160 i'r myfyrwyr hyn, sy'n golygu bod mwy na £5m wedi'i dalu'n uniongyrchol i fyfyrwyr.

Gwariwyd £3.6m arall gan Brifysgol De Cymru a phartneriaid er mwyn cefnogi dysgwyr, gan gynnwys ar gymorth iechyd meddwl.

### Dull Dim Anfantais

Parhaodd y Brifysgol i fabwysiadu dull dim anfantais ym mlwyddyn academaidd 2020/21 er mwyn helpu myfyrwyr i symud ymlaen a chyflawni eu potensial yn ystod y pandemig a oedd yn dal i fynd rhagddo. Cyflwynwyd sawl newid ychwanegol i reoliadau ynglŷn â dilyniant a dyfarnu. Roedd Byrddau Asesu yn fwy hyblyg wrth ystyried perfformiad myfyriwr, gan gydbwyso'r angen i gynnal safonau academaidd ar yr un pryd. Er enghraifft:

- Ailgyflwynwyd y posibilrwydd o ailsefyll modiwlau sy'n cyfrif tuag at gymwysterau terfynol gyda marciau heb eu capio.
- Cafodd rheoliadau ynglŷn ag ail-wneud asesiadau a modiwlau ar gyfer y flwyddyn academaidd hon eu llacio er mwyn rhoi cyfleoedd ychwanegol i ailsefyll modiwlau, yn hytrach na'u hail-wneud, mewn sefyllfaoedd penodol.
- Os na phasiodd myfyrwyr fodiwl dewisol, mae'n bosibl y byddent wedi gallu symud ymlaen i'r lefel nesaf o hyd heb ailsefyll y modiwl, o fewn paramedrau penodol.
- Ar gyfer myfyrwyr yn eu blwyddyn olaf, os oeddent yn agos iawn at ffin y dosbarthiad nesaf, mae'n bosibl y byddai'r dosbarthiad uwch wedi'i ddyfarnu iddynt os oedd eu proffil academaidd cyffredinol yn cefnogi hyn.

Roedd y newidiadau hyn yn ychwanegol at y trefniadau parhaus i gefnogi myfyrwyr, megis amgylchiadau esgusodol ychwanegol ar gyfer tarfu o ganlyniad i'r pandemig, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cyfle gorau posibl i lwyddo yn eu hastudiaethau.

### Canolfannau Profi ar gyfer Covid-19 Asymptomatig

Ym mis Rhagfyr 2020, agorodd Prifysgol De Cymru dair canolfan profi ar gyfer Covid-19 asymptomatig ar gampysau Caerdydd, Casnewydd a Phontypridd. Ar y cyd â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, dechreuodd y Brifysgol gynnal profion gwirfoddol ar gyfer myfyrwyr a chydweithwyr heb unrhyw symptomau Covid-19. Parhaodd y canolfannau i weithredu tan ddiwedd y flwyddyn academaidd, gan ddarparu miloedd o brofion ar y safle ac yn ddiweddarach gwnaethant ddechrau dosbarthu pecynnau profi gartref. Cafodd y canolfannau profi eu gweithredu gan gyfuniad o gydweithwyr, graddedigion a myfyrwyr o Brifysgol De Cymru.

Agorodd canolfan profi PCR Iechyd Cyhoeddus Cymru ym maes parcio Campws Pontypridd yn Nhrefforest yn ystod haf 2020, gan ddarparu cyfleusterau i brofi pobl â symptomau.

“

**DRWY GYDOL Y FLWYDDYN ACADEMAIDD, RYDYM WEDI BOD YN CYSYLLTU Â’N MYFYRWYR YN RHEOLAIDD ER MWYN CAEL EU HADBORTH AR EU DYSGU.**

### Adborth Myfyrwyr

Ar ddechrau'r pandemig, cyflwynodd y Brifysgol 'USW DEAL' (sef 'Digitally Enabled Active Learning'). Mae'n cynnig darpariaeth sylfaenol gyson i bob un o'n dysgwyr ble bynnag a sut bynnag y maent yn astudio gyda ni. 'USW DEAL':

- Mae'n creu cymunedau dysgu cymdeithasol.
- Mae'n hwyluso ymholi dros hyfforddiant yn ystod rhyngweithiadau rhwng Dysgwyr/ Tiwtoriaid.
- Mae'n darparu deunydd digidol addysgiadol cynhwysol a hygyrch y gellir cael gafael arno mewn ffordd hyblyg sy'n meithrin dealltwriaeth ac ymgysylltu.
- Mae'n cefnogi rhyngweithio personol o ansawdd uchel â chydweithwyr mewn gwasanaethau academaidd a phroffesiynol.
- Mae'n cynnig cyfleoedd dysgu gweithredu heriol priodol, yn unigol a chyda chyd-fyfyrwyr.
- Mae'n ymateb i'n dysgwyr a'n hethos o ‘Fyfyrwyr fel partneriaid’.
- Mae'n ategu dysgu ac yn sicrhau bod cynnydd yn weladwy i ddysgwyr wrth iddynt ddatblygu.
- Mae'n sicrhau mynediad at wasanaethau cymorth ar-lein o ansawdd uchel.

Drwy gydol y flwyddyn academaidd, rydym wedi bod yn cysylltu â'n myfyrwyr yn rheolaidd er mwyn cael eu hadborth ar eu dysgu. Rydym wedi defnyddio'r adborth hwn i sicrhau ein bod yn cyflwyno'r addysg orau posibl i'n myfyrwyr yn ystod blwyddyn pan fu'n rhaid i brifysgolion ymateb yn gyflym i'r amgylchedd allanol.

Mae canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol a gynhaliwyd eleni yn adlewyrchu'r her a wynebwyd gan y sector AU yn 2020/21, gyda gostyngiad o 7.2% mewn lefelau boddhad i 75.41% o gymharu â 2020 yn sector y DU a gostyngiad o 8.2% i 76.08% yng Nghymru. Ym Mhrifysgol De Cymru, mae lefelau boddhad wedi gostwng 9.24% i 73.08%.

Mae sawl maes lle rydym yn dal i fod ar y blaen i'r sector, gan gynnwys ein gwaith asesu a'n hadborth a'n cymorth academaidd, er bod y meysydd hynny wedi gweld gostyngiadau mewn lefelau boddhad. Rydym hefyd yn dal i fod ar y blaen i'r sector o ran darparu cymuned ddysgu a llais i fyfyrwyr. Ond ceir rhai meysydd hefyd lle rydym islaw cyfartaledd y sector, gan gynnwys ein trefniadaeth a'n gwaith rheoli, adnoddau dysgu ac undeb y myfyrwyr.

O safbwynt cyrsiau, mae rhai, unwaith eto, wedi llwyddo i sicrhau cyfradd boddhad o 100% ond mae cyrsiau eraill wedi cofnodi cyfraddau boddhad mwy siomedig. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar lefel cwrs lle rydym yn wynebu her barhaus ac mae cynlluniau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r adborth a gafwyd drwy'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol. Mae maes gwaith allweddol ym mhob rhan o'r Brifysgol hefyd yn ystyried cyflymu'r broses o gyflwyno cwricwla seiliedig ar her yn 2021/22 ac mae Gwasanaethau TG ac Adnoddau Dysgu yn gweithio drwy gynlluniau i wella meysydd a nodwyd yn yr adborth a gafwyd gan fyfyrwyr.

## YMGYSYLLTU DINESIG/CYMUNEDOL

Ym Mhrifysgol De Cymru, rydym yn frwdfrydig dros wneud gwahaniaeth yn ein cymunedau. Drwy ein hallbynnau ymchwil a'n gweithgarwch academaidd, rydym yn datblygu ac yn cryfhau cysylltiadau gwerthfawr drwy weithio gyda llunwyr polisi, grwpiau dysgu cymunedol a sefydliadau diwylliannol cenedlaethol.

Mae eu gwaith yn cael ei lywio'n uniongyrchol gan gymunedau Cymru ac maent yn annog dinasyddiaeth weithgar drwy gynnwys y cyhoedd mewn sgyrsiau cymdeithasol, diwylliannol a gwleidyddol. Mae'r gweithgareddau ysgolheigaidd a phroffiliau ymchwil hyn hefyd yn dangos y canllawiau a ddarparwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Llywodraeth Cymru i ddatblygu arweinyddiaeth ddinesig ranbarthol a chenedlaethol ymhellach, gan ganolbwyntio'n benodol ar arloesedd cymdeithasol.

Ymhlith rhai enghreifftiau o'n gwaith cenhadaeth ddinesig diweddar mae'r canlynol:

Mae'r **Athro Chris Evans**, Hanesydd Caethwasiaeth yr Iwerydd, wedi gweithio ochr yn ochr ag ymgyrchwyr cymunedol mewn cynllun a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i ddatgelu ymwneud Cymru â system Caethweision yr Iwerydd, nad yw wedi cael fawr ddim sylw mewn naratifau hanesyddol pwysig. Nod ei brosiect yw tynnu sylw at ddeialog ryngddiwylliannol a rennir rhwng pobl Cymru a'r rhai a ddioddefodd erchyllterau caethwasiaeth; gan gynnig ffyrdd newydd o ddeall hanes Cymru mewn perthynas â'r fasnach fyd-eang, drwy gynhyrchu tecstilau a ddefnyddiwyd i wneud dillad ar gyfer gweithwyr caeth yn yr 17eg ganrif a'r 18fed ganrif. Mae'r Athro Evans yn awyddus i ymchwilio ymhellach i'r ffordd y cafodd 'Welsh Plains' neu 'Negro Cloth' ei greu, y fasnach ynddo a'r defnydd a wnaed ohono, er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r cysylltiadau hanesyddol rhwng Cymru a chaethwasiaeth yr Iwerydd, gan ddod â gweithwyr crefft cyfoes a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd ac ethnig leiafrifol at ei gilydd. Mae'r prosiect hefyd yn llywio naratifau ymwybyddiaeth addysg sy'n gweithio i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol drwy gynnwys naratifau rhynghiliol yn stori gyffredinol Cymru.

“

**MAE PRIFYSGOL DE CYMRU YN GWNEUD CYFRANIAD SYLWEDDOL AT FYWYDAU MUDWYR SY'N CEISIO LLOCHES YNG NGHYMRU.**

**Mae'r Athro Gareth Roderique-Davies a'r Athro Bev John**, a arweiniodd Grŵp Ymchwil Caethiwed Prifysgol De Cymru, wedi gweithio ochr yn ochr ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau yn y trydydd sector i ymchwilio i'r diffyg safoni o ran diagnosio Niwed i'r Ymennydd sy'n Gysylltiedig ag Alcohol (ARBD), a dibyniaeth clinigwyr ar fesurau amhenodol wrth drin nam gwybyddol a achosir drwy gamddefnyddio alcohol. Mae eu gwaith, a ysgogwyd dan y diffyg cyllid ar gyfer gwasanaethau adsefydlu er mwyn helpu'r rhai sy'n dioddef o ARBD, yn dangos y ffordd y gall ymchwil academaidd gefnogi'r gymuned o ran ei hiechyd a'i llesiant. Awgrymodd yr Athro Roderique-Davies a'r Athro John fod y diffyg ymchwil i'r cyflwr yn gyfrifol am y flaenoriaeth isel a roddir iddo mewn cyllidebau cyllido ar gyfer sefydliadau cymorth cymunedol. Mae'r prosiect yn cael dwy effaith ddinesig: yn gyntaf, mae'n galluogi clinigwyr i wneud penderfyniadau hyddysg sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ddewis profion priodol ar gyfer ARBD; yn ail, wrth dynnu sylw at gyffredinolrwydd y cyflwr mewn ardaloedd megis De Cymru, mae'n annog cyllidwyr a chomisiynwyr gwasanaethau i flaenoriaethu ARBD a chefnogi sefydliadau sy'n gweithio i wella bywydau'r rhai sy'n byw gyda'r cyflwr.

Mae **Dr Mike Chick**, Hyrwyddwr Ffoaduriaid Prifysgol De Cymru, wedi gweithio i fynd i'r afael â'r problemau sy'n ymwneud â darparu cyrsiau Saesneg i'r rhai sy'n ceisio lloches yng Nghymru, drwy helpu i wella dealltwriaeth o anghenion ffoaduriaid a thynnu sylw at y rhwystrau y maent yn eu hwynebu o ran cael addysg a gwaith yn y dyfodol. Drwy astudio'r cymorth ieithyddol sydd eisoes ar gael, mae Dr Chick yn nodi amrywiadau yn anghenion dysgwyr yn ôl cefndir addysgiadol, lefelau iaith, cymwysterau proffesiynol a dyheadau o ran cyflogaeth. Wrth wneud hynny, ei nod yw sefydlu rhaglenni ESOL (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill) 'cyd-destunol' sy'n diwallu anghenion y dysgwr unigol. Mae ei ganfyddiadau wedi'i alluogi i nodi'r dulliau mwyaf priodol o ddiwallu'r anghenion hynny ac mae'n gweithio i gynyddu'r ddarpariaeth Saesneg i ffoaduriaid ledled Cymru. Felly, mae Prifysgol De Cymru yn gwneud cyfraniad sylweddol at fywydau mudwyr sy'n ceisio lloches yng Nghymru. Mae'n gweithio i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol drwy gymorth iaith Saesneg a chynnig mannau cymdeithasol i ffoaduriaid ddysgu a chael budd o'r gymuned. Wrth nodi gwahanol anghenion dysgu, mae ymchwil Dr Chick yn ei gwneud yn haws i fudwyr gael addysg a gwaith yng Nghymru, yn ogystal â'u galluogi i gyfranogi yn niwylliant Cymru a chreu diwylliant Cymreig y dyfodol.

**Celia Jackson**, Uwch-Ddarlithydd mewn Ffotograffiaeth Ddogfennol, cyd-sylfaenydd Phrame, sef menter gydweithredol sy'n hyrwyddo gwaith ffotograffwyr benywaidd sy'n dod i'r amlwg yng Nghaerdydd a De Cymru, er mwyn gwneud profiad menywod yn weladwy a herio'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau a geir yn nisgyblaeth ffotograffiaeth. Mae Phrame yn parhau i gefnogi gwaith menywod drwy arddangosfeydd, gweithgarwch hyrwyddol ar-lein a chyd-gymorth ac chyd-anogaeth, yn ogystal â chynnig adolygiadau am ddim o bortffolios i ddarpar-artistiaid yn yr ardal. Mae Phrame yn hwyluso ac yn hyrwyddo cydraddoldeb, gan herio'r canfyddiadau o ffotograffiaeth fel maes elitaidd a ddominyddir gan ddynion.

# PWYLLGORAU'R BRIFYSGOL

**Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau***
Richard Lloyd-Owen (Cadeirydd) (1/1)
Louise Evans (4/4)
Yr Athro Michael Gunn (3/4)
Yr Athro Julie Lydon (4/4)
Michael Stevens (3/4)
Chris Sutton (4/4)
Steve Wilson (1/1)

**Y Pwyllgor Adnoddau Dynol**
Debbie Jones (Cadeirydd) (1/1)
Louise Evans (1/1)
Yr Athro Michael Gunn (1/1)
Yr Athro Julie Lydon (1/1)
Graham Edwards (0/1)
Hugh Jones (cyfetholedig) (1/1)
Shannon Lee (1/1)

**Y Pwyllgor Cyflog Uwch Staff**
Yr Athro Michael Gunn (Cadeirydd) (1/1)
Debbie Jones (1/1)
Louise Evans (0/1)
Richard Lloyd-Owen (0/0)
John Derrick (1/1)
Chris Sutton (1/1)
Graham Edwards (0/1)
Yr Athro Julie Lydon (1/1)
Angela Lewis (1/1)
Shannon Lee (1/1)

**Y Pwyllgor Archwilio***
Alison Phillips (Cadeirydd) (3/3)
Yr Athro Philip Gummett (3/3)
David Francis (1/1)

*Nid oes unrhyw groesgynrychiolaeth rhwng y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio.

**Y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu**
Louise Evans (Cadeirydd) (1/1)
Yr Athro Michael Gunn (1/1)
Dr Louise Bright (1/1)
Chris Sutton (1/1)
John Derrick (1/1)
Yr Athro Julie Lydon (1/1)

**Y Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd**[V]
Yr Athro Michael Gunn (Cadeirydd) (1/1)
Louise Evans (1/1)
Yr Athro Julie Lydon (1/1)
Kay Dennis (1/1)
Debbie Jones (1/1)
Sanjay Balakrishnan (1/1)
Sion O'Connor (0/0)
John Derrick (0/1)
Chris Sutton (1/1)
Angela Lewis (1/1)
Louise Bright (1/1)

[V] Cafodd y Pwyllgor Pobl, Diwylliant a Gwerthoedd ei greu ym mis Mehefin 2021, gan ddwyn ynghyd waith y Pwyllgor Cyflog Uwch Staff, y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu a'r Pwyllgor Adnoddau Dynol.

**Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth**
Yr Athro Michael Gunn (Cadeirydd) (1/1)
Debbie Jones (0/1)
Louise Evans (1/1)
Richard Lloyd-Owen (0/1)
John Derrick (0/1)
Chris Sutton (1/1)
Graham Edwards (0/1)
Angela Lewis (1/1)
Cobi Flowers (0/1)
Kay Dennis (1/1)

**Y Bwrdd Academaidd**
Cadeirydd: Yr Athro Julie Lydon (2/3)

**Hyd at wyth aelod o uwch staff a benodir gan yr Is-Ganghellor:**
Dr Ben Calvert (3/3)
Yr Athro Paul Harrison (2/3)
Yr Athro Martin Steggall (3/3)
Mark Milton (3/3)
Yr Athro Dylan Jones-Evans (3/3)
William Callaway (3/3)

**Deoniaid cyfadran a Phennaeth Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru neu enwebai:**
Dr Stewart Eyres (2/3)
Yr Athro Barry Atkins (2/3)
Dr Linda Evans (3/3)
Yr Athro Helena Gaunt (1/3)

**Hyd at bedwar pennaeth meysydd academaidd eu natur a enwebir gan yr Is-Ganghellor:**
Nathalie Czechowski (3/3)
Dr Louise Bright (3/3)
Dr Steve Lake (3/3)
Dr Clare Kell (2/3)

**Wyth aelod etholedig o staff academaidd:**
Dr Jeroen Nieuwland (3/3)
Lewis Fall (3/3)
Kelly Wegener (0/0)
Jill Barnes (2/2)
Yr Athro Jennifer Austin (2/2)
Julie Prior (3/3)
Dr Palash Kamruzzaman (3/3)
Dr Rachel Grainger (2/3)

**Un aelod o staff anacademaidd a etholir gan y staff anacademaidd:**
David Sinclair (3/3)

**Un aelod o'r broffeswriaeth a etholir gan y broffeswriaeth:**
Yr Athro Denis Murphy (0/2)
Yr Athro Ifiok Otung (1/1)

**Dau fyfyriwr a enwebir gan Undeb y Myfyrwyr:**
Shannon Lee (2/2)
Lois Jones (2/2)
Cobi Flowers (1/1)
David Pye (1/1)

**Hyd at dri aelod a gyfetholir gan y Cadeirydd:**
Angela Lewis (3/3)

() Darperir gwybodaeth am bresenoldeb ar gyfer aelodau a fu'n gwasanaethu yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021, a fynegir fel nifer cyfarfodydd y pwyllgor yr oedd yr aelod yn bresennol ynddynt allan o gyfanswm y cyfarfodydd yr oedd disgwyl iddo fod yn bresennol ynddynt.

# CYFRIFOLDEBAU PWYLLGORAU ALLWEDDOL

## Y PWYLLGOR CYLLID AC ADNODDAU

Y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau sy'n gyfrifol am roi cyngor i'r Bwrdd ar strategaethau ariannol hirdymor. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r rheoliadau ariannol gan gynnwys unrhyw bolisïau ariannol ynddynt; mae'n cymeradwyo trefniadau yswiriant a bancio'r Brifysgol; mae'n cymeradwyo ac yn argymell cynigion ar gyfer gwariant, contractau a cheisiadau am grant; mae'n cymeradwyo cyllideb Undeb y Myfyrwyr ar gyfer pob blwyddyn ymlaen llaw ac yn monitro'r ffordd y caiff ei gwario. Mae'r Pwyllgor yn argymell cyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol a rhagolygon tymor hwy i'r Bwrdd. Mae'n cael adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ariannol (refeniw a chyfalaf) a'r sefyllfa ariannol ac yn monitro'r adroddiadau hyn yn erbyn y gyllideb. Mae'n datblygu ac yn cynnal polisi trysorlys a buddsoddi priodol. mae'n monitro lefelau a gofynion benthyca, hylifedd a'r ffordd y caiff arian dros ben ei fuddsoddi yn unol â'r polisi hwnnw ac yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'n cael adroddiadau a chyfrifon rheolaidd ar gyfer gweithrediad unrhyw is-gwmni masnachu.

Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn argymell Rhaglen Ystadau blynyddol i'r Bwrdd, gan gynnwys yr holl waith cynnal a chadw eiddo a phrosiectau adeiladu, ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynglŷn â chynigion ar gyfer caffael, gwerthu neu lesio eiddo a thir. Mae'n adolygu'r Strategaeth TGCh a'r Strategaeth Ystadau, gan gynnwys monitro risgiau ariannol weithgareddau sy'n ymwneud â TGCh ac Ystadau. Mae'n ystyried unrhyw drafodion sylweddol eraill ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd. Mae'n adolygu'r agweddau ariannol ar weithgarwch ymchwil ac yn adolygu'r risgiau strategol sy'n effeithio ar y Brifysgol ar gyfer y meysydd hynny a gwmpesir gan gylch gorchwyl y Pwyllgor ac unrhyw risgiau penodol a bennir iddo gan y Bwrdd.

Ar y cyd â'r Pwyllgor Archwilio, mae'n ystyried datganiadau ariannol blynyddol cyfun y Brifysgol a'i his-gwmnïau, a baratowyd ac a archwiliwyd yn briodol yn unol ag Atodlen 7 i'r Ddeddf Diwygio Addysg ym mhresenoldeb yr archwilwyr allanol.

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am adolygu'r broses o sicrhau effeithiolrwydd y systemau ariannol a systemau rheolaeth fewnol eraill. Mae'n ystyried ac yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ar benodi archwilwyr mewnol ac yn adolygu eu hadroddiadau, gan gynnwys adroddiadau dilynol ar weithredu a chwmpas ac effeithiolrwydd eu gwaith. Mae'n ystyried ac yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ar benodi archwilwyr allanol, eu hannibyniaeth a'u heffeithiolrwydd, yn adolygu datganiadau ariannol y Brifysgol a'i his-gwmnïau ac yn ystyried adroddiadau cynnydd ar feysydd risg sylweddol sy'n effeithio ar y Brifysgol. Mae hefyd yn cael adroddiadau gan wasanaeth archwilio'r cyngor cyllido fel y maent yn effeithio ar y Brifysgol ac yn monitro cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio. Mae'n monitro perfformiad ac effeithiolrwydd yr archwilwyr allanol a mewnol ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch eu hailbenodi, lle y bo'n briodol.

Ar y cyd â'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, mae'n ystyried datganiadau ariannol blynyddol cyfun y Brifysgol a'i his-gwmnïau, a baratowyd ac a archwiliwyd yn briodol yn unol ag Atodlen 7 i'r Ddeddf Diwygio Addysg ym mhresenoldeb yr archwilwyr allanol. Bydd yn gofyn am sicrwydd gan archwilwyr allanol bod cyfrifon yr is-gwmnïau wedi'u llunio yn unol â gofynion y Ddeddf Cwmnïau.

## Y PWYLLGOR DIWYLLIANT, POBL A GWERTHOEDD

Y Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff gwerthoedd Prifysgol De Cymru eu hymgorffori yn niwylliant y Brifysgol ac ymddygiad ei staff, yn ystyried sut mae penderfyniadau'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cydymffurfio ag Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan) a gwerthoedd Prifysgol De Cymru, ac yn adolygu'r diwylliant ymhlith y staff a'r boblogaeth myfyrwyr ac yn asesu sut mae'r mesurau sydd ar waith yn ymgorffori gwerthoedd Prifysgol De Cymru yn ymddygiadau cymuned Prifysgol De Cymru.

Mae'n gyfrifol am gymeradwyo polisi iechyd a diogelwch y Brifysgol ac am adolygu'r trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch yn y Brifysgol yn rheolaidd a rhoi cyngor i'r Bwrdd arnynt. Mae'n gyfrifol am ddatblygu strategaeth cyflogaeth hirdymor a rhoi cyngor i'r Bwrdd arni. Ac eithrio pan fydd y Bwrdd yn nodi'n benodol y dylid cadw materion yn ôl i'w cymeradwyo gan y Bwrdd, mae'n cymeradwyo, ar ran y Bwrdd, y cyfryw bolisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â chyflogaeth ag y cyfeirir atynt yn benodol yn yr Erthyglau Llywodraethu a/neu a allai, o bosibl, arwain at ddiswyddo cyflogai.

Mae'n gyfrifol am wneud argymhellion i'r Bwrdd ynglŷn â'r fframwaith ar gyfer cyflog ac amodau staff ac eithrio'r Is-Ganghellor a deiliaid eraill swyddi uwch ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar reolau ynglŷn ag ymddygiad staff, diswyddo staff a gweithdrefnau cwyno. Mae hefyd yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ar faterion staffio a chyflogaeth eraill gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb y mae angen i'r Bwrdd benderfynu arnynt ac yn rhoi cyngor i'r Bwrdd ar hyrwyddo cyfle cyfartal.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi cyngor i'r Bwrdd, fel y bo'n briodol, ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r Pwyllgor yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer penodi aelodau a swyddogion Bwrdd y Llywodraethwyr. Mae'n gyfrifol am ystyried cynllunio ar gyfer olyniaeth mewn perthynas ag aelodau'r Bwrdd a gwerthuso'r cydbwysedd o ran sgiliau, gwybodaeth ac amrywiaeth y Bwrdd. Mae hefyd yn gyfrifol am wneud argymhellion ynglŷn ag aelodau pwyllgorau'r Bwrdd.

Mae'n gyfrifol am roi cyngor i'r Bwrdd ar gydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ac am gymeradwyo argymhellion gan yr Is-Ganghellor ynglŷn â chydnabyddiaeth Deoniaid Cyfadrannau, Cyfarwyddwyr a swyddi lefel 3 cyfatebol gan adrodd i aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Mae hefyd yn adolygu cydnabyddiaeth Pennaeth Coleg Merthyr Tudful a Phennaeth Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae'n gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynglŷn â thaliadau diswyddo i'r Bwrdd Gweithredol a Chlerc y Llywodraethwyr. Mae'n ystyried buddiannau, cynaliadwyedd ac enw da sefydliadol yn ogystal â buddiant y cyhoedd a diogelu arian cyhoeddus fel rhan o'i ystyriaethau a rhaid iddo ofyn am wybodaeth gymharol i lywio ei benderfyniadau.

## Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth sy'n gyfrifol am roi cyngor i'r Bwrdd ar gydnabyddiaeth yr Is-Ganghellor. Mae'n gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynglŷn â thaliadau diswyddo i'r Is-Ganghellor. Mae'n ystyried buddiannau, cynaliadwyedd ac enw da sefydliadol yn ogystal â buddiant y cyhoedd a diogelu arian cyhoeddus fel rhan o'i ystyriaethau a rhaid iddo ofyn am wybodaeth gymharol i lywio ei benderfyniadau.

## Y BWRDD ACADEMAIDD

Y Bwrdd Academaidd sy'n gyfrifol am faterion cyffredinol sy'n ymwneud â'r gwaith ymchwil, yr ysgolheictod, yr addysgu a'r cyrsiau yn y Brifysgol, gan gynnwys meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr; penodi a diswyddo arholwyr mewnol ac allanol; polisïau a gweithdrefnau ar gyfer asesu ac arholi perfformiad academaidd myfyrwyr; cynnwys y cwricwlwm; safonau academaidd a dilysu ac adolygu cyrsiau; y gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu cymwysterau a theitlau academaidd anrhydeddus; a'r gweithdrefnau ar gyfer gwahardd myfyrwyr o'r Brifysgol am resymau academaidd. Bydd y cyfryw gyfrifoldebau yn ddarostyngedig i ofynion cyrff dilysu ac achredu. Mae'n ystyried y posibilrwydd o ddatblygu gweithgareddau academaidd y Brifysgol a'r adnoddau sydd eu hangen i'w cefnogi ac yn rhoi cyngor i'r Is-Ganghellor a Bwrdd y Llywodraethwyr ar hynny; ac yn rhoi cyngor ar y cyfryw faterion eraill ag y gall Bwrdd y Llywodraethwyr neu'r Is-Ganghellor eu cyfeirio at y Bwrdd Academaidd.

# ADOLYGIAD ARIANNOL

## PRIF AMCANION

Mae prif amcanion y Brifysgol, yn unol ag adran 124 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (fel y'i diwygiwyd), yn ymwneud â darparu addysg uwch, addysg bellach a chynnal gwaith ymchwil. Yn ogystal â hynny, mae'r Brifysgol hefyd yn cynnal gweithgareddau eraill i gefnogi'r prif amcanion hynny. Mae'r rhain yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth, ymgynghoriaeth a darparu gwasanaethau llety, arlwyo a chynadledda ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt.

## STRATEGAETH ARIANNOL

Nod ein strategaeth ariannol yw sicrhau hyfywedd a chynaliadwyedd ariannol grŵp y Brifysgol (y Grŵp) yn yr hirdymor drwy greu amgylchedd gweithredu lle mae'r staff yn atebol ac yn gyfrifol am warchod ein hadnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol.

Rydym yn parhau â'n trefniadau rheoli ariannol llwyddiannus ac yn adeiladu arnynt er mwyn ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â thirwedd addysg uwch sy'n datblygu drwy'r amser. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn cynhyrchu'r arian parod sydd ei angen i gefnogi ein rhaglenni strategol a'n gallu i gynnal a gwella ein seilwaith. Byddwn yn rheoli costau, gan wneud penderfyniadau strategol cadarn ynghylch gweithgareddau sydd naill ai'n ariannol gynaliadwy neu'n unol â Chynllun Strategol y Brifysgol.

Mae'r Grŵp wedi nodi nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol y mae'n eu monitro fel rhan o'i strategaeth ariannol. Dengys perfformiad dros y tair blynedd diwethaf:

| Cymarebau ariannol allweddol fel % o Incwm | 2020/21 % | 2019/20 % | 2018/19 % |
|---|---|---|---|
| Gwarged Gweithredu | 2.9 | (0.3) | 1.2 |
| Gwarged/(Diffyg | 2.6 | (0.6) | 1.6 |
| EBITDA | 12.2 | 11.7 | 11.5 |
| Cost Staff | 60.1 | 59.6 | 59.0 |

Er gwaethaf yr heriau o ran gweithredu a gododd yn ystod pandemig COVID-19, llwyddodd y Grŵp i wella ei sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylid ystyried bod rhywfaint o'r gwelliant hwn mewn perfformiad yn ddigwyddiad untro, a'r eitemau mwyaf perthnasol yw:

- Tâl dibrisio is o £2.7m yn 2020/21 sydd i'w briodoli i newid yn y polisi dibrisio a'r penderfyniad i atal gwariant cyfalaf dros dro yn ystod y pandemig.
- Y penderfyniad i ryddhau darpariaethau gwerth £1.2m
- Cymorth cyllid refeniw Llywodraeth Cymru ar gyfer Covid-19 a oedd yn werth £0.5m

Yn ystod y flwyddyn, ymgymerwyd â mesurau rheoli costau eraill er mwyn inni allu ymdopi ag effaith pandemig Covid-19 ar ein hincwm (sef, yn bennaf, lai o incwm o ffioedd dysgu a llai o incwm atodol o'n gweithgareddau arlwyo, cynadledda llety) a oedd yn cynnwys mesurau rheoli costau llym mewn perthynas â gwariant nad oedd yn gysylltiedig â staff a pheidio â llenwi swyddi staff a adawodd y Grŵp oni bai ei bod yn gwbl hanfodol gwneud hynny.

## CYNALIADWYEDD ARIANNOL

Ar y cyfan, yn 2021/22, rydym yn disgwyl dychwelyd i'r lefelau o incwm o ffioedd dysgu a welwyd cyn y pandemig, er ei bod yn bosibl y bydd y cymysgedd o ffioedd yn cynnwys cyfran lawer uwch o ffioedd o fyfyrwyr tramor am fod y farchnad honno wedi bod yn fwy llwyddiannus inni nag yr oeddem wedi'i ragweld, sydd wedi ein helpu i wneud iawn am effaith mwy o gystadleuaeth am fyfyrwyr yn y farchnad ddomestig.

Yn y tymor canolig i'r tymor hwy, rydym yn rhagweld y bydd sicrhau twf yn nifer y myfyrwyr yn y marchnadoedd hynod gystadleuol yma ac yn rhyngwladol yn heriol. Mae'n hanfodol ein bod yn gallu parhau i ddenu a chadw myfyrwyr talentog o'r DU a thramor er mwyn cynnal ein gweithgareddau ysgolheigaidd mewn ystod amrywiol o ddisgyblaethau academaidd. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn cynnig rhaglenni unigryw y bydd myfyrwyr yn wirioneddol awyddus i'w hastudio, sy'n wahanol i'n cystadleuwyr o ran cynnwys a'r ffordd y maent yn cael eu cyflwyno lle y bo'n briodol. Bydd y pwyslais ar ddysgu sy'n seiliedig ar gyfranogiad ac efelychiad gweithredol ar gyfer cyflogaeth yn yr 21ain Ganrif a ategir gan ymchwil â ffocws o ansawdd uchel yn llywio ein prosesau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'n rhaglenni academaidd, ein partneriaethau strategol, ein trefniadau staffio a'n hamgylcheddau dysgu.

Mae ffioedd israddedigion llawn amser y DU a'r UE yn parhau i fod wedi'u capio ar £9,000 heb unrhyw gynnydd i adlewyrchu chwyddiant. Mae hyn yn creu heriau gan fod gennym ffrwd incwm wastad o bosibl ond ein bod yn dal i wynebu pwysau chwyddiant sylweddol o ddyfarndaliadau cyflog i'r staff, costau ychwanegol y cynllun pensiwn, a chwyddiant cyffredinol.

Bydd Prifysgol De Cymru yn parhau i fod yn ariannol gynaliadwy yng nghyd-destun amgylchedd addysg uwch dynamig drwy gyflawni Strategaeth 2030. Mae ein gweledigaeth yn glir; rydym am newid bywydau a'n byd er gwell. Mae ein byd yn newid yn gyflym iawn a'n rôl ni yw sicrhau bod gan ein myfyrwyr y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen i wireddu eu potensial ac achub ar gyfleoedd yn y dyfodol.

Gan gydweithio â diwydiant, bydd ein gwaith ymchwil ac arloesi yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r byd, o ynni i iechyd a diogelwch a darparu atebion i broblemau go iawn.

Dros y degawd nesaf, ein huchelgeisiau yw:

- Bod yn Brifysgol ranbarthol fawr ag arlwy academaidd amser llawn a rhan amser nodedig sy'n ddeniadol i farchnadoedd domestig a byd-eang
- Sicrhau profiad gwych, cynhwysol a diddorol i fyfyrwyr
- Sicrhau bod ein myfyrwyr yn cwblhau eu hastudiaethau yn llwyddiannus ac yn cael swyddi yn eu meysydd arbenigedd
- Ymgysylltu â phartneriaid er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ar eu gweithgareddau
- Ymrwymo i wella llesiant y cymunedau a wasanaethir gennym yn y dyfodol drwy weithredu'n unigol ac ar y cyd
- Cynnig cyfleoedd fyfyrwyr ledled y rhanbarth a thu hwnt gael addysg uwch a symud ymlaen i addysg uwch
- Bod yn gyflogwr ymgysylltiol sy'n seiliedig ar werthoedd
- Bod yn ariannol gynaliadwy

Mae adnoddau ariannol sylweddol ar gael i ni fel Prifysgol yn ogystal â gallu cynhyrchu arian parod da o flwyddyn i flwyddyn. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n datblygu ein cynlluniau buddsoddi er mwyn cyflawni Strategaeth 2030, gan gynnwys ein huwchgynllun ystadau a'n strategaeth ddigidol. Ceir rhagor o fanylion am ein metrigau ariannol yn yr adran ar y Strategaeth Ariannol ac ymdrinnir â'r risgiau allweddol yn yr adran ar Brif Risgiau ac Ansicrwydd.


## DATGANIADAU ARIANNOL BLYNYDDOL


Mae'r datganiadau ariannol blynyddol yn cynnwys canlyniadau ar gyfer y Brifysgol ynghyd â chanlyniadau ei his-gwmnïau.

**Perfformiad Ariannol 2020/21**

- ▲ **Mae incwm wedi cynyddu 0.7% i £200.2m.**
- ▲ **Mae cyfanswm yr eitemau o wariant wedi lleihau 2.5% i £194.4m.**
- ▲ **Mae'r Gwarged Gweithredu wedi cynyddu £6.3m i £5.8m.**
- ▲ **Mae arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau wedi cynyddu £36.6m i £59.3m.**
- ▲ **Mae asedau net wedi cynyddu £20.7m i £75.4m.**

# INCWM




- Mae ffioedd dysgu wedi cynyddu £1.7m i £139.9m yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yng nghyfran y farchnad o fyfyrwyr tramor.
- Mae grantiau rheolaidd gan y corff cyllido wedi cynyddu £3.3m, yn bennaf oherwydd cynnydd o £1.8m mewn cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (APADGOS) er mwyn cefnogi Coleg Merthyr Tudful a chynnydd mewn cyllid gan CCAUC i gefnogi'r Brifysgol a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru gyda gweithgareddau sy'n ymwneud â COVID-19.
- Gwelwyd gostyngiad bach o £0.2m mewn grantiau a chontractau ymchwil, yn bennaf oherwydd effaith pandemig Covid-19. Mae llawer o brosiectau, gan gynnwys gweithgarwch mawr a ariennir gan yr UE, wedi ceisio estyniadau heb gost er mwyn adfer o'r effaith hon ac wedi ymestyn eu dyddiadau dod i ben er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cytundebol. Dylai'r estyniadau hyn a phrosiectau ymchwil newydd a ddyfarnwyd yn 2021 gynyddu incwm ymchwil.
- Gostyngodd incwm arall £1.9m. Mae llety, arlwyo a chynadleddau wedi gostwng £3.6m oherwydd y pandemig. Bu'n rhaid cau rhai o'r cyfleusterau arlwyo a chynadledda, a phenderfynwyd ad-dalu ffioedd llety myfyrwyr ar gyfer y tymor olaf. Mae'r pandemig hefyd wedi cyfyngu ar y gallu i gynhyrchu incwm arall drwy logi cyfleusterau a pharcio ceir. Mae hyn wedi'i wrthbwyso gan arian a gafwyd gan yr Yswirwyr yn bennaf mewn perthynas â'r tân yn CAPSE sydd wedi'i gydnabod yng Ngwasanaethau Cynadledda Prifysgol De Cymru (USWCS) ar gyfer tarfu ar fusnes.
- Ym mis Mai 2020, gwnaeth tân ddifrodi'r adeilad a'r cyfarpar a ddefnyddiwyd ar gyfer profion modurol arbenigol yn adeilad y Ganolfan Peirianneg Systemau Modurol a Phŵer, gan amharu ar weithgareddau busnes.

# GWARIANT

Mae costau staff fel canran o incwm wedi cynyddu ychydig o flwyddyn i flwyddyn, yn bennaf o ganlyniad i'r heriau i incwm yn sgil pandemig Covid-19 a her barhaus ffioedd dysgu sefydlog. Rydym wedi parhau i reoli ein sail costau yn ddarbodus o ystyried yr heriau hyn sy'n gysylltiedig ag incwm ac, er i gostau staff gynyddu £1.8m mewn termau absoliwt, cynyddodd cost cynnal pensiynau llai taliadau diffyg ar gyfer Cronfa Pensiwn Llywodraeth Leol £2.4m a arweiniodd at ostyngiad mewn costau staff gwirioneddol i'r Grŵp.

Mae costau gweithredol eraill sy'n cyfateb i £55.5m wedi gostwng £1.5m yn ystod y flwyddyn. Fel rhan o'n hymateb i bandemig COVID-19, lleihaodd ein gwariant cyffredinol £2.4m. O hyn, roedd costau teithio yn cyfrif am ostyngiad o £0.9m a fyddai wedi'i wario fel arfer ar deithio a chynhaliaeth ac ariannu teithiau maes; roedd arbedion mewn cyfleustodau a gwaredu gwastraff yn cyfrif am £0.9m yn sgil cau campysau i fyfyrwyr a staff yn unol â pholisi'r llywodraeth; Hefyd, yn sgil cwtogi ar gyfleusterau arlwyo, gostyngodd gwariant ar nwyddau traul £0.6m; Mae'r arbedion hyn wedi cael eu gwrthbwyso gan y ffioedd uwch a dalwyd i asiantiaid tramor am gomisiwn o £0.5m sy'n gysylltiedig â chynnydd yn nifer y myfyrwyr o dramor. Mae gwariant ar Gyfarpar Diogelu Personol a deunyddiau Iechyd a Diogelwch wedi cynyddu £0.3m. Mae adolygiad o'r gofrestr o asedau sefydlog i gadarnhau ei bod yn gyflawn a nodi oes economaidd ddefnyddiol yr asedau wedi cyfrannu at ostyngiad o £2.7m mewn dibrisiant.


Ym mis Gorffennaf 2021, cynhaliwyd adolygiad o'r benthyciad cyfradd sefydlog gan Santander plc a phenderfynwyd torri'r gyfradd llog bresennol, sef 6%. Arweiniodd hyn at dorcostau o £0.5m sydd wedi'u cydnabod yn y flwyddyn ariannol hon. Cafodd y benthyciad ei ailariannu gyda HSBC ym mis Awst 2021 ar gyfradd arnawf o SONIA ac 1.5%.

## BUDDSODDI CYFALAF

Rydym wedi parhau i fuddsoddi o flwyddyn i flwyddyn yn ein seilwaith cyfalaf a'n cyfarpar. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, rydym wedi gwario £12.9m ar gyfleusterau er mwyn sicrhau'r profiad gorau posibl i'n myfyrwyr a'u llwyddiant academaidd. Gwnaed y mwyafrif helaeth o hyn yn bosibl drwy gael cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru drwy'r pandemig ac, felly, byddwn yn rhyddhau'r cyllid hwn drwy incwm gohiriedig a fydd yn cyfateb i daliadau dibrisiant yn y dyfodol.

Mae'r meysydd allweddol o fuddsoddiad yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- £5.7m ar gyfarpar clyweledol a chyfarpar cyfrifiadurol er mwyn galluogi amgylchedd gwaith hyblyg i gyflogeion a myfyrwyr.
- £0.4m ar fentrau carbon isel.
- £0.4m ar gerbydau trydan a gorsaf wefru.
- £1.0m i newid cyfarpar a ddifrodwyd ar siambrau profi ar gyfer profi prosesau cylchu batris yn yr hirdymor.
- Gwariwyd £1.6m ar brosiectau ynni a chynaliadwyedd.
- £1.3m i uwchraddio cyfleusterau yn yr Adran Beirianneg ac mewn Labordai Chwaraeon, Clinigau a Theatrau Darlithio ar y campysau.
- £0.8m i uwchraddio cyfleusterau a chynnal a chadw strwythurau adeiladau ar bob un o'r campysau
- £1.1m yng Ngholeg Merthyr Tudful i wella'r cyfleusterau TG i staff a myfyrwyr a gwneud gwelliannau pellach i'r adeiladau a'r gweithdai.
- £0.2m yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru fel rhan o fuddsoddiad mewn technoleg ddigidol a all gipio cyfryngau, recordio a rhannu mewn mannau addysgu ac ymarfer.




## ASEDAU SEFYDLOG

Cynhaliwyd profion lleihad mewn gwerth ar yr adeiladau o fewn y Grŵp yn unol â Strategaeth 2030 y Brifysgol. Ni nodwyd unrhyw leihad yng ngwerth yr asedau sefydlog yn y flwyddyn ariannol hon.

Adolygwyd oes economaidd ddefnyddiol asedau'r Brifysgol a phenderfynwyd bod cyfarpar gwyddonol a ddefnyddir mewn labordai ac fel rhan o addysgu yn cael ei ddefnyddio y tu hwnt i'r polisi 5 blynedd. Diwygiwyd oes economaidd ddefnyddiol yr asedau hyn i 10 mlynedd.

## LLIF ARIAN PAROD A CHYLLIDO

Mae'r Grŵp wedi cynhyrchu llif arian parod o £59.4m o weithgareddau gweithredu (2020 £22.8m)

Mae'r sefyllfa o ran cronfeydd net (balansau arian parod a balansau wedi'u buddsoddi llai benthyciadau banc) wedi cynyddu o £59.5m i £107.0m. Mae hyn yn cynnwys benthyciadau banc hirdymor o £52.2m (2020 £57.8m). Mae'r benthyciadau yn ddarostyngedig i gyfamodau ariannol, y cydymffurfiwyd â phob un ohonynt yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Grŵp yn dal £159.3m (2020 £117.3m) o falansau arian parod a buddsoddiadau byrdymor. Mae'r balansau hyn wedi'u buddsoddi gyda nifer o fanciau a chymdeithasau adeiladu yn y DU a thramor ac yng ngwarannau a bondiau corfforaethol llywodraeth y DU.

## PENSIYNAU

Mae'r Grŵp yn rhan o bedwar cynllun pensiwn, Cynllun Pensiwn yr Athrawon (TSS), Cronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RCTPF) Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) a Chronfa Bensiwn Bersonol Scottish Widows.

Mae diffyg RCTPF wedi gostwng ychydig o £182m i £180m. Y prif reswm dros y cynnydd hwn yw bod cyfraddau llog wedi sefydlogi gan arwain at gyfradd ddisgowntio uwch sy'n adlewyrchu swm presennol y rhwymedigaeth pensiwn.

Ni fu modd nodi cyfran y sefydliad o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol mewn perthynas â TSS nac USS ac, fel y cyfryw, cyfrifir amdanynt fel petaent yn gynlluniau cyfraniadau diffiniedig. Fel rhan o gynllun adfer diffyg USS, arweiniodd y gyfradd cyfraniadau diffyg gytûn o 2% at rwymedigaeth diffyg o £183k.

## ENILLION YR IS-GANGHELLOR

Bwrdd y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am bennu cydnabyddiaeth yr Is-Ganghellor, sy'n Brif Weithredwr Grŵp Prifysgol De Cymru, sy'n cynnwys Coleg Merthyr Tudful a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Yn ei adolygiad yn 2020, cadwodd Bwrdd y Llywodraethwyr, yn unol â chyngor ei Bwyllgor Cydnabyddiaeth, gyflog yr Is-Ganghellor yn £229,000.

Ystyriodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gydnabyddiaeth yr Is-Ganghellor a oedd ar fin ymddeol a chafodd ddata cymharol a gymharodd gyflog yr Is-Ganghellor â gwahanol grwpiau o sefydliadau cymaradwy ym mhob rhan o'r sector addysg uwch. Ystyriwyd y grwpiau cymaradwy â'r rhai â chyd-destunau tebyg i Brifysgol De Cymru. Roedd y grwpiau cymaradwy yn cynnwys prifysgolion yng Nghymru; prifysgolion a sefydlwyd ar ôl 1992 â throsiannau tebyg; a'r rhai â throsiant ychydig yn llai; pob prifysgol a sefydlwyd ar ôl 1992; ac aelodau o Gynghrair y Prifysgolion. (Mae Prifysgol De Cymru yn aelod o Gynghrair y Prifysgolion.) Nododd y Pwyllgor fod cydnabyddiaeth yr Is-Ganghellor islaw cyfartaledd pob grŵp cymaradwy. Nododd y Pwyllgor hefyd fod perfformiad yr Is-Ganghellor yn cael ei adolygu bob blwyddyn a thrwy gydol y flwyddyn gan y Cadeirydd. Byddai perfformiad yr Is-Ganghellor yn erbyn amcanion cytûn a dangosyddion perfformiad allweddol cytûn y sefydliad yn cael ei drafod a'i ystyried gan y Cadeirydd a'r Is-Ganghellor mewn trafodaeth reolaidd drwy gydol y flwyddyn. Nododd y Cadeirydd ei bod yn fodlon ar berfformiad yr Is-Ganghellor eleni ac mewn blynyddoedd blaenorol. Roedd y Cadeirydd hefyd yn ddiolchgar am y ffordd roedd yr Is-Ganghellor wedi arwain y Brifysgol (a Phrifysgolion Cymru) yn ystod pandemig Covid-19. Roedd y Cadeirydd o'r farn bod arweinyddiaeth yr Is-Ganghellor wedi bod yn ardderchog o dan amgylchiadau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen ac yn fuddiol i'r Brifysgol a'r sector addysg uwch yng Nghymru yn fwy cyffredinol oherwydd ei rôl arwain gyda Prifysgolion Cymru. Nododd y Cadeirydd hefyd fod disgwyl i'r Is-Ganghellor ymddeol ar ddiwedd yr haf a bod ei holynydd wedi'i benodi a nododd hefyd nad oedd unrhyw daliad diswyddo yn gysylltiedig ag ymddeoliad yr Athro Lydon. Barnodd y Pwyllgor fod perfformiad yr Is-Ganghellor yn dal i fod yn dda ac, o'i chymharu ag eraill, ei bod yn cael llai o gydnabyddiaeth na chyfartaledd pob grŵp cymaradwy. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar gydnabyddiaeth yr Is-Ganghellor a nododd, am fod yr Athro Lydon ar fin ymddeol, nad oedd trafodaeth bellach yn angenrheidiol nac yn gyfiawnadwy.

Ystyriodd y Pwyllgor benodiad yr Is-Ganghellor newydd hefyd a, gyda'r un data o'r sector, gan wybod am gydnabyddiaeth yr Is-Ganghellor presennol, roedd yn fodlon cadarnhau trafodaeth gynharach ag aelodau o'r Pwyllgor Chwilio am Is-Ganghellor i bennu cydnabyddiaeth yr Is-Ganghellor newydd ar yr un lefel a'i ragflaenydd. Nid oedd trafodaeth ynghylch perfformiad yn angenrheidiol (nac yn berthnasol) gan na fyddai'r Is-Ganghellor yn ymgymryd â'i rôl newydd tan 1 Medi 2021.

## PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD

Mae'r Grŵp wedi nodi nifer o risgiau strategol lefel uwch y mae'n eu monitro'n rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Cynaliadwyedd ariannol:** Mae'r pandemig wedi creu cryn ansicrwydd ac amharu yn yr economi, ac yn enwedig i'r sector addysg uwch. Mae wedi creu llawer o heriau ariannol a gweithredol, ac mae'n parhau i amharu ar y gallu i recriwtio myfyrwyr domestig a thramor. Gweithredu mewn marchnad gystadleuol tu hwnt lle mae lefelau ffioedd dysgu wedi'u cyfyngu ac mae gwariant yn agored i gynnydd mewn prisiau oherwydd chwyddiant, mae'n bwysicach nag erioed bod modd cynhyrchu digon o wargedion o arian parod er mwyn galluogi'r Brifysgol i fuddsoddi'n strategol yn y profiad i fyfyrwyr, y seilwaith a'r staff.

Mae'r Grŵp yn lliniaru'r risg hon drwy weithredu'r strategaeth ariannol. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar hanfodion rheoli ariannol gan sicrhau effeithlonrwydd trafodion a dealltwriaeth a dadansoddiad o gyfraniad a ffactorau ysgogi busnes.

**Enw da:** Mae safle'r Grŵp yn y tabl cynghrair yn parhau i gryfhau a gallai effeithio ar recriwtio myfyrwyr a staff ymchwil ac addysgu o safon.

**Recriwtio a chadw myfyrwyr:** Mae'r Grŵp wedi datgan ei uchelgais i fod yn ddewis Brifysgol yng Nghymru a thu hwnt i fyfyrwyr sy'n rhoi gwerth ar addysg â ffocws galwedigaethol ac ymchwil gymhwysol. Mae pandemig Covid-19, codi'r cap ar niferoedd myfyrwyr yn Lloegr a demograffeg myfyrwyr yn y dyfodol yn achosi ansicrwydd a risg sylweddol o ran recriwtio myfyrwyr.

Nod ein Cynllun Academaidd yw adeiladu ar yr hyn sydd gennym eisoes sy'n unigryw o ran yr astudiaethau academaidd a gynigiwn a hyrwyddo arfer gorau a welir yn glir yn ein holl gampysau. At hynny, rydym yn parhau i hyrwyddo brand Prifysgol De Cymru yn rhyngwladol ac yn y DU ac yn chwilio am ffyrdd o wella profiad myfyrwyr er mwyn gwella cyfraddau cadw cyffredinol.

**Diogelwch gwybodaeth:** Gallai colli data neu golli rheolaeth ar ein data o ganlyniad i ymosodiadau digidol, esgeulustod, colled ffisegol neu wall dynol beryglu gweithrediad esmwyth y Brifysgol a/neu arwain at fethiant i gydymffurfio â deddfwriaeth gan arwain at gosbau ariannol, costau ychwanegol a niwed i enw da'r Brifysgol. Er mwyn lliniaru'r risg hon, bydd y Brifysgol yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o atgyfnerthu ei mesurau diogelu rhag ymosodiadau seiber.

Mae'r Corff Llywodraethu wedi dod i'r casgliad, o ran yr amcanestyniadau diweddaraf sydd ar gael, bod gan y Grŵp a'r Brifysgol ddigon o gyllid i weithredu ar sail busnes hyfyw. Bydd hyn yn ei galluogi i barhau i fasnachu a chyflawni ei rhwymedigaethau i drydydd partïon wrth iddynt ddod yn ddyledus yn y dyfodol agos.

## YMRWYMIAD I GYNALIADWYEDD

Yn 2020/21, cyflwynodd y Brifysgol Strategaeth Garbon Prifysgol De Cymru (2020-30), sy'n cydnabod bod datgarboneiddio yn hanfodol i weithredu a chynnal amgylchedd prifysgol cynaliadwy – sy'n rhan o Strategaeth 2030 y Brifysgol. Mae'n nodi ein huchelgais i fod yn garbon niwtral erbyn 2040 ac yn pennu chwe tharged strategol yn erbyn y meysydd hynny y mae angen rhoi'r sylw mwyaf iddynt er mwyn cyflawni sero net.

1. Caffael a chadwyn gyflenwi
2. Y defnydd o drydan a nwy mewn adeiladau
3. Y defnydd o ddŵr mewn adeiladau
4. Allyriadau o wastraff
5. Teithiau busnes a theithio carbon isel
6. Newid polisi ac ymddygiad

Ochr yn ochr â hyn, cyhoeddwyd Map Trywydd Carbon 10 mlynedd Prifysgol De Cymru, sy'n ystyried y camau sydd angen eu cymryd ym mhob rhan o'r Brifysgol er mwyn datgarboneiddio. Mae'n pennu sawl carreg milltir allweddol y mae angen i'r Brifysgol eu cyrraedd er mwyn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni sero net ac yn dogfennu map trywydd o gamau gweithredu clir, dichonadwy a chost-effeithiol i gyflawni sero net.

Drwy gydol 2020/21, mae nifer o gamau wedi'u cymryd i hyrwyddo cynaliadwyedd ym Mhrifysgol De Cymru.

### Mentrau gwyrdd

- Cymeradwyodd y Brifysgol uchelgais i fod yn garbon niwtral erbyn 2040.
- Er mwyn ein helpu i gyflawni'r uchelgais honno, sefydlwyd pwyllgor cynaliadwyedd, a gadeirir gan Brif Swyddog Gweithredu'r Brifysgol, i arwain, cydgysylltu a chynghori er mwyn hyrwyddo a datblygu mentrau cynaliadwyedd a'u rhoi ar waith ym mhob rhan o'r Brifysgol.
- Ffurfiwyd chwe grŵp ffocws cynaliadwyedd allweddol hefyd sy'n cynnwys cydweithwyr a myfyrwyr er mwyn datblygu mentrau cynaliadwyedd a'u rhoi ar waith ym mhob rhan o'r Brifysgol.
- Mae myfyrwyr a chydweithwyr (62 hyd yma) hefyd wedi gwirfoddoli i fod yn hyrwyddwyr cynaliadwyedd, er mwyn helpu i ddatblygu gwaith cynaliadwyedd ym Mhrifysgol De Cymru.

### Gwastraff

- Rhoddwyd y gorau i ddefnyddio cwpanau untro ym mhob un o allfeydd arlwyo Prifysgol De Cymru. Er mwyn cefnogi hyn, lansiwyd cynllun Cwpanau Prifysgol De Cymru i fyfyrwyr a staff – sef menter blaendal/dychwelyd.
- Arbedwyd 250 o brydau bwyd a 625 o dunelli o CO2e, gan weithio mewn partneriaeth â Too Good To Go. Mae'r bartneriaeth hon yn ein galluogi i arbed dognau dros ben o'n cynhyrchion wedi'u rhagbecynnu 'grab and go' manwerthol, gan leihau gwastraff drwy werthu bag o gynhyrchion am bris gostyngol i gydweithwyr a myfyrwyr.

### Teithio

- Gosodwyd 12 o orsafoedd cerbydau trydan ychwanegol ar ystad y Brifysgol (ar ein campysau yng Nglyntaf a Threfforest, gan gynnwys yn ein neuaddau preswyl).
- Caffaelwyd saith cerbyd fflyd trydan newydd ar gyfer y tîm cynnal a chadw Ystadau a Chyfleusterau.

### Bioamrywiaeth

- Mae 89 o goed a 600 o fetrau sgwâr o ddôl blodau gwyllt wedi'u plannu ar y campysau yng Nglyntaf a Threfforest.

### Ynni

- Gosodwyd system ffotoffoltäig solar 100 kW ar do ein ParthFfit ar Gampws Trefforest.
- Buddsoddwyd mewn sawl menter goleuadau LED.
- Mae pibellwaith wedi'i uwchraddio ar bob campws drwy osod deunydd inswleiddio thermol.

### Ôl Troed Carbon

- Gwnaethom greu ein hôl troed carbon cyntaf, gan ddefnyddio blwyddyn ariannol 2018/19 y Brifysgol fel ein llinell sylfaen. Ers hynny, rydym wedi creu dau ôl troed carbon pellach ac rydym yn monitro ein cynnydd tuag at gyflawni ein huchelgais ar gyfer 2040. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, gwyddom bellach ein bod wedi lleihau ein hallyriadau carbon 27% ers 2018/19. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli y bydd y pandemig byd-eang yn effeithio ar lawer o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ac, felly, byddwn yn monitro ein heffaith yn ofalus dros y flwyddyn nesaf er mwyn deall sut mae hyn wedi newid ein hallyriadau a'n heffaith amgylcheddol.
- Ers 2013, mae Prifysgol De Cymru wedi sicrhau gostyngiad o 32% yn yr hyn a elwir yn allyriadau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 – sef yr allyriadau hynny rydym yn eu cynhyrchu'n uniongyrchol drwy bethau megis boeleri a cherbydau, ac allyriadau anuniongyrchol megis y trydan neu'r ynni rydym yn ei brynu.

# DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS

Daeth Prifysgol De Cymru yn elusen gofrestredig (rhif 1140312) ar 9 Chwefror 2011, ar ôl bod yn elusen eithriedig o dan delerau Deddf Elusennau 2003. Cyfeiriad cofrestredig yr elusen yw Trefforest, Pontypridd, CF37 1DL. Aelodau Bwrdd y Llywodraethwyr yw ymddiriedolwyr yr elusen ac fel y cyfryw maent yn rhoi sylw priodol i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus a'i ganllawiau atodol ar hyrwyddo addysg er budd y cyhoedd. O dan adran 124 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, mae gan Gorfforaeth Addysg Uwch Prifysgol De Cymru y pŵer i wneud y canlynol:

a) darparu addysg uwch;

b) darparu addysg bellach;

c) cynnal ymchwil a chyhoeddi canlyniadau ymchwil.

Mae'r Brifysgol yn hyrwyddo addysg a dysgu er budd cyhoeddus drwy ddarparu cyrsiau hyfforddiant uwch, sy'n arwain at ddyfarnu graddau neu gymwysterau priodol eraill. Rydym yn cynnal ymchwil er mwyn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth newydd a lywir gan ysbryd ymholi academaidd. Yn unol â'n rôl fel sefydliad sydd wedi ymwreiddio'n gadarn yn ei gymunedau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, mae gennym gryfderau mawr hefyd ym maes ymchwil a lywir gan broblemau a gynhelir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allanol.

Rydym yn darparu, yn cynnal ac yn cadw ac yn gwella cyfleusterau a gwasanaethau er budd y myfyrwyr a'n cymunedau lleol, e.e. llety, arlwyo, cyfleusterau chwaraeon, gofod perfformio ac amwynderau cyhoeddus (e.e. clinig ceiropracteg). Rydym hefyd yn rhoi sylw priodol i unrhyw niwed aflesol a all ddeillio o'n gweithgareddau ac, yn benodol, effaith ein datblygiadau campws ar yr ardaloedd o'u hamgylch. Rydym yn anelu at leihau'r effaith hon drwy ymgynghori a thrafod yn helaeth â'r gymuned yn ogystal â gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol perthnasol.

# LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i lywodraethu corfforaethol o safon uchel. Er nad yw'r Brifysgol, fel corfforaeth addysg uwch a ffurfiwyd drwy statud ac iddi statws elusennol, yn dod o dan ofynion adrodd llywodraethu corfforaethol Cyfnewidfa Stoc Llundain, mae'r Brifysgol am ddangos bod ei threfniadau llywodraethu yn agored ac yn atebol a'i bod yn cydymffurfio ag arfer gorau yn y sector addysg uwch. Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu'r Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru ac mae'n gweithio ar roi'r Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru ar waith ac yn adolygu'r Ymrwymiad i Weithredu.

Mae'r datganiad hwn yn disgrifio'r ffordd y caiff egwyddorion perthnasol llywodraethu corfforaethol eu cymhwyso at y Brifysgol. Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyfyngedig a Bwrdd Cyfarwyddwyr Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig yn atebol i Fwrdd y Brifysgol fel unig 'aelod' y corfforaethau hynny. Mae pwyllgorau Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol yn gweithredu fel pwyllgorau ar gyfer Bwrdd Cyfarwyddwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyfyngedig a Bwrdd Cyfarwyddwyr Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig fel y bo'n briodol, ac eithrio i'r graddau y mae gan y Byrddau hynny (gyda chytundeb Bwrdd y Brifysgol) eu trefniadau eu hunain. Bwrdd y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol yn gyffredinol am sicrhau bod system gadarn o reoli risg, rheoli a llywodraethu. Mae'r llywodraethwyr yn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn drwy'r elfennau canlynol:

- Adolygu effeithiol gan y corff llywodraethu a'i bwyllgorau perthnasol, yn enwedig Cyllid ac Adnoddau ac Archwilio;
- Sicrhau bod systemau rheoli effeithiol ar waith sy'n cynnwys polisïau, amcanion a chynlluniau, rheoli risgiau a chyfleoedd allweddol, monitro perfformiad ariannol a gweithredol, diogelu asedau'n ffisegol, rhannu dyletswyddau, gweithdrefnau awdurdodi a chymeradwyo, a systemau gwybodaeth;
- Gwasanaeth archwilio mewnol ac allanol effeithiol;
- Proses nodi a rheoli risg sydd wedi'i hymgorffori ym mhob system fusnes;

Ystyriaeth i God Llywodraethu Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion. Nodir y ffordd y mae'r Brifysgol yn rheoli risg yn effeithiol isod:

- Mae'r Brifysgol yn canolbwyntio ar reoli risg yn weithredol fel rhan annatod o'r broses reoli ym mhob rhan o'r sefydliad;
- Fel rhan o'r fframwaith rheoli risg, mae'r Brifysgol yn nodi gwahanol fathau o risgiau i gyflawni ei hamcanion yn glir. Gall y risgiau hyn fod yn strategol neu'n weithredol a gallant fod â goblygiadau i enw da'r Brifysgol, ei sefyllfa ariannol neu ei gweithrediadau o ddydd i ddydd neu unrhyw gyfuniad o'r rhain;
- Mae'r Brifysgol yn mynd ati i annog pob rheolwr i ystyried goblygiadau pob penderfyniad, contract neu brosiect mawr o ran risg, fel rhan arferol o'u gwaith o ddydd i ddydd;
- Mae'r Brifysgol yn integreiddio'r broses o reoli risg â'r broses gynllunio flynyddol, sef y ffordd y mae'r Bwrdd Gweithredol yn penderfynu ar weithgareddau academaidd a gweithgareddau eraill y Brifysgol ac yn eu cydlynu;
- Mae'r Is-Ganghellor a'r uwch dîm rheoli yn ceisio nodi a chanolbwyntio ar risgiau uniongyrchol a risgiau dros dro ac iddynt oblygiadau strategol, a all newid o wythnos i wythnos, yn ogystal â'r risgiau mwy sylweddol a pharhaol a nodir yng nghofrestr risg y Brifysgol;
- Disgwylir i reolwyr gysylltu risgiau a nodwyd â chamau gweithredu, er mwyn lliniaru'r risg neu mewn ymateb iddi;
- Mae'r Is-Ganghellor a'r uwch dîm rheoli yn gweithio gyda'r Deoniaid a Swyddogion Gweithredol Cyfadrannau, Penaethiaid Adrannau Cymorth a'u timau rheoli i'w hannog a'u cefnogi i reoli risg yn effeithiol fel rhan o'r broses o reoli'r sefydliad o ddydd i ddydd, ac yn benodol i'w helpu i nodi risgiau, eu gwerthuso, eu rheoli a rhoi gwybod amdanynt;

- Mae'r Corff Llywodraethu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio gynnal asesiad o risgiau sylweddol bob tymor drwy asesiad ciplun. Cofnodir yr asesiad drwy'r gofrestr risg gorfforaethol ac mae'n rhan o'r broses barhaus o reoli risg. Mae'r gofrestr risg yn nodi risgiau sylweddol ac yn cynnwys y manylion canlynol: – natur y risg – yr effaith y gallai ei chael – y tebygolrwydd y bydd y risg yn crisialu – 'perchennog' y risg – y prosesau sy'n rheoli'r risg – unrhyw asesiad annibynnol o'r prosesau rheoli hynny – y gwasanaeth archwilio mewnol, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, adolygiadau allanol;

- Mae'r Brifysgol wedi cytuno â'i harchwilwyr mewnol y bydd eu rhaglen waith a rheolaeth fewnol yn seiliedig ar risg: mae hyn yn cynnwys risgiau busnes, risgiau gweithredol a chydymffurfio yn ogystal â risg ariannol;

- Mae Pwyllgor Archwilio Bwrdd y Llywodraethwyr yn adolygu digonolrwydd y broses o reoli risg yn y Brifysgol yn rheolaidd wrth iddi barhau i gael ei datblygu. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021 cynhaliwyd adolygiad sylweddol o brosesau rheoli risg y Brifysgol. Yn ogystal â gwelliannau o ran adrodd ar y gofrestr risg, mae'r Brifysgol wedi datblygu cynrychioliadau graffigol er mwyn dangos y rhyngberthnasau a phwysigrwydd cymharol risgiau ar y gofrestr gorfforaethol.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod proses barhaol o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Brifysgol, sydd wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 ac a oedd ar waith hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol a'r Adolygiad Blynyddol, sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd ac sy'n unol â'r canllawiau ar reolaeth fewnol i gyfarwyddwyr yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU fel y'i diwygiwyd gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain.

## CRYNODEB O STRWYTHUR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y BRIFYSGOL

Mae Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol yn cynnwys aelodau a benodir yn unol ag Offeryn Llywodraeth y Brifysgol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn aelodau annibynnol lleyg sydd â phrofiad perthnasol ym myd busnes a'r proffesiynau. Mae rolau Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd wedi gwahanu oddi wrth rôl Is-Ganghellor y Brifysgol (fel Prif Weithredwr). Nodir y materion hynny sydd wedi'u cadw'n benodol i'r Bwrdd benderfynu arnynt yn Erthyglau Llywodraethu'r Brifysgol. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol parhaus y Brifysgol, defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon a chymeradwyo datblygiadau mawr ac mae'n cael adroddiadau rheolaidd gan uwch reolwyr. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac, am y rhan fwyaf o'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021, roedd ganddo dri Phwyllgor Sefydlog (Cyllid ac Adnoddau, Adnoddau Dynol ac Archwilio). Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu argymhellion i'r Bwrdd ynglŷn ag aelodaeth ac mae Pwyllgor Cyflog Uwch Staff a Phwyllgor Cydnabyddiaeth yn gwneud argymhellion ynglŷn â chydnabyddiaeth uwch reolwyr. Ym mis Mehefin 2021, fel rhan o'r broses o roi'r Siarter Llywodraethu a'r Ymrwymiad i Weithredu a Chod Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion ar waith, cyflwynodd y Brifysgol Bwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd, a ddygodd ynghyd waith y Pwyllgor Adnoddau Dynol, y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu a'r Pwyllgor Cyflog Uwch Staff.

Mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn datblygu strategaethau ariannol hirdymor ac yn cynghori'r Bwrdd arnynt, yn argymell cyllidebau refeniw a chyfalaf blynyddol i'r Bwrdd ac yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar y datganiadau ariannol blynyddol ac yn cael adroddiadau rheolaidd ar berfformiad cyllidebol. Hefyd, mae'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yn cymeradwyo'r Rheoliadau Ariannol, yn adolygu gweithdrefnau gweithredu ariannol yn barhaus, yn cymeradwyo rheoliadau ar gyfer cronfeydd dros ben a gofynion benthyca ac yn monitro'r ffordd y cânt eu buddsoddi ac yn cymeradwyo gwariant sy'n uwch na'r terfynau dirprwyo a nodwyd yn y Rheoliadau.

## DATGANIAD AM REOLAETH FEWNOL

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu'r broses o sicrhau effeithiolrwydd y systemau ariannol a systemau rheolaeth fewnol (anacademaidd) eraill. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor Archwilio yn gwneud argymhellion ynglŷn â phenodi archwilwyr mewnol, yn adolygu eu hadroddiadau, gan gynnwys adroddiadau dilynol ar weithredu a chwmpas ac effeithiolrwydd eu gwaith. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn gwneud argymhellion ynglŷn â phenodi archwilwyr allanol ac yn adolygu datganiadau ariannol y Brifysgol, gan gynnwys unrhyw is-gwmnïau, ar ôl i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau eu hadolygu a chyn iddynt gael eu cyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr, yn adolygu'r llythyr rheoli, ac yn cael ac yn ystyried adroddiadau cynnydd ar feysydd o risg sylweddol a nodwyd gan Fwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor. Hefyd, mae'r Pwyllgor Archwilio yn cael ac yn ystyried adroddiadau gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan gynnwys Gwasanaeth Archwilio'r Cyngor, fel y maent yn effeithio ar fusnes y Brifysgol ac yn monitro cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio. Er bod uwch swyddogion gweithredol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yn ôl yr angen, nid ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor.

## ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD A CHOD LLYWODRAETHU PWYLLGOR CADEIRYDDION Y BRIFYSGOL

Cwblhaodd Bwrdd y Llywodraethwyr adolygiad o effeithiolrwydd yn 2015/16, a ystyriodd Cod Cadeiryddion y Prifysgolion yn ofalus. Y bwriad oedd y byddai'r adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn ystod haf 2020, ond ym mis Gorffennaf 2020 cytunodd y Bwrdd i'w ohirio am flwyddyn tra roedd Cod newydd Cadeiryddion y Prifysgolion a'r Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru yn cael eu hystyried, yn ogystal ag effaith y pandemig presennol. Wrth wneud y penderfyniad hwn, nododd y Bwrdd fod ystyriaeth yn cael ei rhoi ar y pryd i'r fersiwn ddiwygiedig o God y Cadeiryddion y Prifysgolion, y Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru a'r Ymrwymiad, deiliadaeth aelodau'r Bwrdd a chynnig i ddatblygu Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd. Dangosodd hyn nad oedd y broses o ystyried materion a allai wella effeithiolrwydd wedi'i gohirio. Ystyriodd Bwrdd y Llywodraethwyr gylch gorchwyl, cylch gwaith a chyfansoddiad yr adolygiad ym mis Medi 2021, a'i nod yw dechrau'r adolygiad yn 2021, gyda'r adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr ym mis Gorffennaf 2022.

Ym mis Chwefror 2020, cafodd y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu ddadansoddiad o gydymffurfiaeth y Brifysgol â Chod newydd Cadeiryddion y Prifysgolion, gan nodi bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r Cod yn y mwyafrif o feysydd, a bod angen adolygu nifer bach o feysydd. Ym mis Mehefin 2020, cafodd y Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu ddiweddariad ar y dadansoddiad o'r Cod. Adolygwyd dogfennau er mwyn sicrhau bod cyfeiriadau yn y Cod yn glir ac, yn benodol, ystyriodd y Pwyllgor yr angen i benodi Uwch-Gyfarwyddwr Annibynnol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon nad oedd angen gwneud hynny, am fod gan y Bwrdd Gadeirydd annibynnol, Is-Gadeirydd a Chadeirydd ar y Pwyllgor Archwilio nad ydynt yn cael cydnabyddiaeth ariannol. Cytunwyd y dylai'r Is-Gadeirydd arwain y broses o arfarnu'r Cadeirydd ac y byddai'r Cadeirydd yn arfarnu'r Is-Gadeirydd. Nodwyd hefyd fod Clerc y Llywodraethwyr hefyd yn gweithredu fel cyfryngwr ar ran aelodau eraill o'r Bwrdd pan fo angen. Cynigiwyd y dylai'r elfen o'r Cod sy'n ymwneud â fframwaith moesegol ar wahân i'r Brifysgol, yn ychwanegol at Egwyddorion Nolan, gael ei hystyried gan yr adolygiad o effeithiolrwydd yn 2021 a nodwyd y byddai'r gofrestr o fuddiannau aelodau'r Bwrdd Llywodraethu yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

## Y SIARTER LLYWODRAETHU AR GYFER PRIFYSGOLION YNG NGHYMRU A'R YMRWYMIAD I WEITHREDU

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar y ffordd roedd camau gweithredu o'r Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru a chynllun Ymrwymiad i Weithredu yn cael eu rhoi ar waith ym mis Medi a mis Tachwedd 2020. Cadarnhaodd yr adroddiad gydymffurfiaeth rannol a chynnydd tuag at gydymffurfiaeth lawn â'r Ymrwymiad i Weithredu.

## SEFYDLU, DATBLYGU A GWELLA EFFEITHIOLRWYDD

Mae Bwrdd y Brifysgol yn adolygu ei effeithiolrwydd yn rheolaidd drwy'r Pwyllgor Enwebu a Llywodraethu, a gafodd ei ymgorffori'n ddiweddar (Mehefin 2021) yn y Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd. Cynhelir adolygiad ffurfiol o effeithiolrwydd yn 2021/22. Mae newidiadau a wnaed yn 2020/21 o ganlyniad i Adolygiad Camm ac ystyriaethau eraill yn cynnwys creu'r Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd â'r cyfrifoldebau pwyllgor presennol am bolisi cyflogaeth, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, y Gymraeg, iechyd a diogelwch, enwebu, llywodraethu, cyflog uwch staff a chyfrifoldebau ychwanegol am ddiwylliant a gwerthoedd. At hynny, mae'r Bwrdd wedi dechrau rhaglen dreigl o arfarniadau cyfannol gan ddechrau gyda Chadeirydd y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi adfer rhaglen dreigl flynyddol o gysylltiadau llywodraethwyr â gwahanol rannau o'r Brifysgol ac wedi comisiynu rhaglen dreigl o sesiynau sefydlu (sydd ar gael i bob llywodraethwr) o wahanol rannau o'r Brifysgol a fydd yn dechrau yn ystod hydref 2021. Yn 2021/22, bydd y Brifysgol yn adolygu ei rhaglen sefydlu bresennol sy'n cynnwys digwyddiadau a gynhelir gan CCAUC/Advance HE a sesiynau mewnol gyda rheolwyr, llywodraethwyr lleyg, 'ffrindiau' a sesiwn sefydlu gyffredinol.

## CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Drwy ei Bwyllgor Enwebu a Llywodraethu (sef y Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd bellach), mae gan y Bwrdd nod datganedig i greu Bwrdd sy'n adlewyrchu amrywiaeth y rhanbarth a wasanaethir ganddo. Bu cydbwysedd rhwng y rhywiau a chryn dipyn o amrywiaeth ymhlith aelodau'r Bwrdd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2020/21, gan ddefnyddio hysbysebion ac asiantau chwilio, penododd y Brifysgol bum llywodraethwr newydd, gyda'r penodiadau yn symud y Bwrdd ymlaen o ran nifer o agweddau ar amrywiaeth ond collodd dir o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau. Mae'r Bwrdd wedi nodi, er y bydd yn parhau i ymdrechu dros bob maes amrywiaeth, y bydd yn defnyddio ei ymarfer recriwtio llywodraethwyr lleyg nesaf i geisio adfer y cydbwysedd rhwng y rhywiau a sicrhawyd ganddo yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Caiff pob ymarfer recriwtio llywodraethwyr lleyg ei lywio gan Fatrics Sgiliau (Profiad ac Amrywiaeth) a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd. Gofynnir i bob llywodraethwr lleyg ddarparu gwybodaeth am amrywiaeth sy'n adlewyrchu'r wybodaeth a ddarperir gan staff a myfyrwyr.

# CYFRIFOLDEBAU'R LLYWODRAETHWYR

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU BWRDD Y LLYWODRAETHWYR MEWN PERTHYNAS Â'R ADRODDIAD BLYNYDDOL A'R DATGANIADAU ARIANNOL

Bwrdd y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion y Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd a gyhoeddwyd gan Fwrdd Llywodraethwyr Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a'r gyfraith a'r rheoliadau cymwys.

Mae'n ofynnol iddo baratoi datganiadau ariannol y grŵp a'r rhiant-Brifysgol yn unol â safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a'r gyfraith gymwys (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys FRS 102 *Y Safon Adrodd Ariannol sy'n Gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon* a gofynion Deddf Elusennau 2011

Mae telerau ac amodau cyllid hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiadau ariannol gael eu paratoi yn unol â Datganiad o Arfer a Argymhellir 2019 – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch, yn unol â gofynion y Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2020/21 a gyhoeddwyd gan CCAUC.

Mae'n ofynnol i Fwrdd y Llywodraethwyr baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r grŵp a'r rhiant-Brifysgol ac o'u hincwm a'u gwariant, eu henillion a'u colledion a newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r pob un o ddatganiadau ariannol y grŵp a'r rhiant-Brifysgol, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys y DU, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r grŵp a'r rhiant-Brifysgol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw;
- defnyddio'r broses gyfrifyddu ar sail busnes hyfyw onid ydynt naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp neu'r rhiant-Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y rhiant-Brifysgol a datgelu sefyllfa ariannol y rhiant-Brifysgol yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg. Mae'n gyfrifol am y cyfryw reolaeth fewnol ag sydd ei hangen yn ei farn ef er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am gymryd y cyfryw gamau ag sy'n rhesymol agored iddynt er mwyn diogelu asedau'r grŵp ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- mae arian o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael ei gymhwyso'n briodol at y dibenion hynny a'i reoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;

- mae arian a ddarparwyd gan CCAUC wedi cael ei ddefnyddio yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd a'r Cod Rheoli Ariannol a'i fod wedi cael ei ddefnyddio yn unol â'r telerau ac amodau a atodir iddo;

- sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill; a

- sicrhau y caiff adnoddau a gwariant y Brifysgol eu rheoli yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan y Brifysgol ac am gywirdeb y wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n llywodraethu'r broses o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

# ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL

## ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I FWRDD LLYWODRAETHWYR PRIFYSGOL DE CYMRU

### Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

## BARN

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol De Cymru ("y Brifysgol") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 sy'n cynnwys Mantolenni'r Grŵp Cyfun a'r Brifysgol, Datganiad o Incwm Cyfunol y Grŵp Cyfun a'r Brifysgol, Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn y Grŵp Cyfun a'r Brifysgol, Datganiad o Lif Arian Parod a nodiadau cysylltiedig y Grŵp Cyfun, gan gynnwys y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2021, ac o incwm a gwariant, enillion a cholledion a newidiadau yng nghronfeydd wrth gefn y Grŵp a'r Brifysgol, a llifau arian parod y Grŵp, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys FRS 102 *The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland*, a'r *Statement of Recommended Practice – Accounting for Further and Higher Education* 2019;
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

## SAIL Y FARN

Fe'n penodwyd yn archwilydd o dan Siarteri a Statudau'r sefydliad ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu'r hyn a'i rhagflaenodd) ac adroddwn yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU, gan gynnwys Safon Foesegol FRC, ac rydym yn annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennym yn ddigon ac yn briodol i roi sail dros ein barn.

## BUSNES HYFYW

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw am nad yw'n bwriadu hylifo'r Grŵp na'r Brifysgol, na dod â'u gweithrediadau i ben, a gan ei fod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn golygu bod hyn yn realistig. Mae hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fod wedi codi amheuon sylweddol ynghylch eu gallu i barhau fel busnes hyfyw am o leiaf flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("y cyfnod busnes hyfyw").

Yn ein gwerthusiad o gasgliadau Bwrdd y Llywodraethwyr, gwnaethom ystyried y risgiau cynhenid i fodel busnes y Grŵp, a dadansoddwyd sut y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol, neu eu gallu i barhau i weithredu dros y cyfnod busnes hyfyw.

Ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- rydym o'r farn bod defnydd Bwrdd y Llywodraethwyr o sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- nid ydym wedi nodi ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu'r Brifysgol i barhau fel busnes hyfyw ar gyfer y cyfnod busnes hyfyw ac rydym yn cytuno ag asesiad Bwrdd y Llywodraethwyr nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol o'r fath.

Fodd bynnag, am na allwn ddarogan pob digwyddiad nac amod yn y dyfodol, ac oherwydd y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol pan y'u gwnaed, nid yw'r casgliadau uchod yn gwarantu y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

## TWYLL AC ACHOSION O DORRI CYFREITHIAU A RHEOLIADAU – Y GALLU I'W CANFOD

Er mwyn nodi risgiau o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll ("risgiau twyll"), gwnaethom asesu digwyddiadau neu amodau a allai nodi cymhelliant neu bwysau i dwyllo neu gynnig cyfle i dwyllo. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys y canlynol:

- Holi Bwrdd y Llywodraethwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r gwasanaeth archwilio mewnol am bolisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal â gofyn a ydynt yn gwybod am unrhyw achosion gwirioneddol o dwyll, achosion o dwyll a amheuir neu achosion honedig o dwyll.
- Darllen cofnodion cyfarfodydd Bwrdd y Llywodraethwyr, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw gydberthnasau anarferol neu annisgwyl.

Gwnaethom roi gwybod am risgiau twyll a nodwyd i bob aelod o'r tîm archwilio a pharhau i wylio am unrhyw arwyddion o dwyll drwy gydol yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio, a chan ystyried pwysau posibl i gyflawni cyfamodau benthyciadau, rydym yn cyflawni gweithdrefnau i ystyried y risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau a'r risg y caiff refeniw twyllodrus ei gydnabod, yn arbennig y risg y caiff incwm o ffioedd dysgu ac incwm ymchwil ei gofnodi yn y cyfnod anghywir a'r risg y gallai rheolwyr y Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol.

Ni nodwyd unrhyw risgiau twyll ychwanegol.

Wrth bennu'r gweithdrefnau archwilio, gwnaethom ystyried canlyniadau'r gwaith a wnaed gennym i werthuso a phrofi effeithiolrwydd gweithredu rheolaethau rheoli risgiau twyll y Grŵp cyfan. Gwnaethom gyflawni gweithdrefnau gan gynnwys:

- Nodi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill er mwyn cynnal profion seiliedig ar feini prawf risg a chymharu'r cofnodion a nodwyd â dogfennaeth ategol. Roedd y rhain yn cynnwys dyddlyfrau a wnaed i gyfrifon anghysylltiedig, y rhai a wnaed i gyfrifon anarferol neu gyfrifon nas defnyddir yn aml, cofnodion yn cynnwys geiriau penodol yn y disgrifiad ac eitemau a gofnodwyd gan unigolion nad ydynt yn gwneud cofnodion mewn dyddlyfrau fel arfer.
- Edrych ar dderbyniadau arian parod yn y cyfnod cyn ac ar ôl 31 Gorffennaf 2021 er mwyn cadarnhau bod ffioedd dysgu ac incwm ymchwil wedi'u cydnabod yn y cyfnod cyfrifyddu cywir.
- Hapsamplu incwm ymchwil er mwyn cadarnhau bod refeniw wedi'i gydnabod yn unol ag amodau sy'n ymwneud â pherfformiad a chynnal profion sylweddol ar gostau lle mae refeniw wedi'i gydnabod yn unol â gwariant.

*Nodi risgiau o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac ymateb iddynt.*

Nodwyd gennym feysydd cyfreithiau a rheoliadau y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol a sector cyffredinol, a thrwy drafod â Bwrdd y Llywodraethwyr a rheolwyr eraill (fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio) a gwnaethom drafod y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gyda Bwrdd y Llywodraethwyr a rheolwyr eraill.

Gan fod y Grŵp yn cael ei reoleiddio, roedd ein hasesiad o risgiau yn cynnwys meithrin dealltwriaeth o'r amgylchedd rheoli gan gynnwys gweithdrefnau'r endid ar gyfer cydymffurfio â gofynion rheoliadol.

Gwnaethom roi gwybod am gyfreithiau a rheoliadau a nodwyd i bob aelod o'n tîm a pharhau i fod yn wyliadwrus o unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio drwy gydol yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n fawr.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol gan gynnwys deddfwriaeth ynglŷn â chyflwyno adroddiadau ariannol, deddfwriaeth ynglŷn â threthiant, deddfwriaeth ynglŷn â phensiynau, deddfwriaeth ynglŷn ag elusennau a datgeliadau penodol sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n ymwneud ag addysg uwch, gan gynnwys y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a gwnaethom asesu i ba raddau y

cydymffurfir â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ar gyfer yr eitemau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle y gallai canlyniadau diffyg cydymffurfio gael effaith berthnasol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft drwy osod dirwyon neu ymgyfreitha neu'r angen i gynnwys darpariaethau sylweddol. Nodwyd y meysydd canlynol fel y rhai sydd fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: cydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol addysg uwch Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan gydnabod natur reoleiddiedig gweithgareddau'r Grŵp. Mae safonau archwilio yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio gofynnol i nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i holi cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoliadol a chyfreithiol, os oes unrhyw ohebiaeth o'r fath. Felly, os na chaiff achos o dorri rheoliadau gweithredol ei ddatgelu i ni neu os na fydd yn amlwg o ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod yr achos hwnnw o dorri rheoliadau gweithredol.

*Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu achosion o dorri cyfreithiau neu reoliadau*

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg na ellir ei osgoi nad ydym, o bosibl, wedi canfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn briodol yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf i ffwrdd y mae diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol ydyw y bydd y gweithdrefnau cynhenid gyfyngedig sy'n ofynnol gan safonau archwilio yn ei nodi.

At hynny, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â chanfod achosion o dwyll o hyd, am y gall y rhain gynnwys cynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwio ffeithiau neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Bwriedir i'n gweithdrefnau archwilio ganfod camddatganiadau perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio na thwyll ac ni ellir disgwyl i ni ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â phob cyfraith a rheoliad.

## GWYBODAETH ARALL

Bwrdd y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr Adolygiad Strategol, y Datganiad Budd Cyhoeddus a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac unrhyw fath o sicrwydd arnynt ac eithrio fel y nodir yn benodol isod.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth a gynhwysir wedi'i cham-ddatgan neu'n anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol. Mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- yn seiliedig ar y gwaith hwnnw yn unig, rydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y wybodaeth arall; ac
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adolygiad Ariannol, y Datganiad Budd Cyhoeddus a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## MATERION Y MAE ANGEN I NI ROI ADRODDIAD ARNYNT DRWY EITHRIAD

O dan Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni ddweud wrthych os, yn ein barn ni:
- nid yw'r elusen wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant-sefydliad yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad

Nid oes gennym ddim i'w nodi yn hyn o beth.

## CYFRIFOLDEBAU BWRDD Y LLYWODRAETHWYR

Fel yr eglurir yn fanylach yn eu datganiad a nodir ar dudalen 42, mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol a bodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg; y fath reolaeth fewnol ag sydd ei hangen yn ei

farn ef er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall; asesu gallu'r grŵp a'r rhiant-Brifysgol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes hyfyw; a defnyddio'r broses gyfrifyddu ar sail busnes hyfyw onid yw naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r rhiant-Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu lle nad oes ganddo unrhyw ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

## CYFRIFOLDEBAU ARCHWILWYR

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a rhoi ein barn mewn adroddiad archwilwyr. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd lefel uchel, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Darperir disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau ar wefan yr FRC yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

## ADRODDIAD AR OFYNION CYFREITHIOL A RHEOLIADOL ERAILL

Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y materion canlynol a ragnodir yng Nghod Ymarfer Archwilio Bwrdd Llywodraethwyr Cyllido Addysg Uwch Cymru ('CCAUC'), a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac yn y Cod Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae arian o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael ei gymhwyso'n briodol at y dibenion hynny a'i reoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
- mae arian a ddarparwyd gan CCAUC wedi cael ei ddefnyddio yn unol â'r Memorandwm Sicrwydd ac Atebolrwydd, y Cod Rheoli Ariannol ac unrhyw delerau ac amodau a atodir iddynt ac wedi cael ei ddefnyddio at y dibenion y cafodd ei roi;
- mae gofynion cyfarwyddyd cyfrifon CCAUC wedi cael eu bodloni.

## DIBEN EIN GWAITH ARCHWILIO A PHWY RYDYM YN ATEBOL IDDYNT

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Fwrdd y Llywodraethwyr yn unig ac yn unol ag Adran 4 o Siarter a Statudau'r Brifysgol ac adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu'r hyn a'i rhagflaenodd) a'r rheoliadau a wneir o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu Bwrdd y Llywodraethwyr o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu ohonynt yn adroddiad yr archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Brifysgol a Bwrdd y Llywodraethwyr am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y barnau a luniwyd gennym.

Rees Batley

**Rees Batley**
**dros ac ar ran Archwilwyr Statudol KPMG LLP**
Cyfrifwyr Siartredig

3 Sgwâr Assembly
Cei Britannia
Caerdydd
CF10 4AX

30 Tachwedd 2021

# DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR Y GRŴP CYFUN A'R BRIFYSGOL

| | | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | **Nodiadau** | **Cyfun £'000oedd** | **Prifysgol £'000oedd** | Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 1 | **139,867** | 128,335 | 138,119 | 126,801 |
| Grantiau gan y corff cyllido | 2 | **32,677** | 15,247 | 29,380 | 13,859 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 3 | **8,246** | 6,025 | 8,475 | 6,345 |
| Incwm arall | 4 | **17,800** | 12,622 | 19,753 | 17,639 |
| Incwm buddsoddi | 5 | **571** | 503 | 1,260 | 1,175 |
| Rhoddion a gwaddolion | 6 | **1,051** | - | 1,845 | - |
| **Cyfanswm yr incwm** | | **200,212** | **162,732** | 198,832 | 165,819 |
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau staff | 7 | **120,307** | 99,529 | 118,460 | 98,770 |
| Treuliau gweithredu eraill | | **55,579** | 45,056 | 57,126 | 48,327 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad | 11,13 | **13,673** | 10,110 | 16,356 | 13,466 |
| Llog a chostau cyllid eraill | 8 | **4,875** | 4,312 | 7,435 | 6,771 |
| **Cyfanswm y gwariant** | 9 | **194,434** | **159,007** | 199,377 | 167,334 |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn enillion a cholledion eraill** | | **5,778** | 3,725 | (545) | (1,515) |
| Colled sy'n codi o waredu asedau sefydlog | | **(586)** | (616) | (688) | (219) |
| **Gwarged/(Diffyg) cyn treth** | | **5,192** | 3,109 | (1,233) | (1,734) |
| Trethiant | 10 | 19 | - | 4 | - |
| **Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn** | | **5,211** | **3,109** | (1,229) | (1,734) |
| Ennill/(colled) actiwaraidd mewn perthynas â'r cynllun pensiwn a ariennir | 28 | **14,582** | 13,970 | (19,578) | (18,706) |
| Ennill actiwaraidd mewn perthynas â'r cynllun pensiwn nas ariennir | 22 | - | - | 87 | - |
| Cynnydd/(Lleihad) yng ngwerth Buddsoddiadau Asedau Gwaddolion ar y farchnad | | **425** | 80 | (182) | (35) |
| **Cyfanswm y draul gynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **20,218** | 17,159 | (20,902) | (20,475) |
| Cynrychiolir gan: | | | | | |
| Incwm cynhwysfawr/(traul) gwaddolion ar gyfer y flwyddyn | | **452** | 87 | (186) | (33) |
| (Traul)/incwm cynhwysfawr cyfyngedig ar gyfer y flwyddyn | | **(336)** | - | 626 | - |
| Incwm cynhwysfawr anghyfyngedig/(traul) ar gyfer y flwyddyn | | **20,102** | 17,072 | (21,342) | (20,442) |
| | | **20,218** | 17,159 | (20,902) | (20,475) |

# DATGANIAD O NEWIDIADAU YNG NGHRONFEYDD WRTH GEFN Y GRŴP CYFUN A'R BRIFYSGOL

## Cyfun

| | Cronfa Wrth Gefn Incwm a Gwariant | | | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|
| | Gwaddol £'000oedd | Cyfyngedig £'000oedd | Anghyfyngedig £'000oedd | £'000oedd |
| **Balans ar 1 Awst 2020** | **3,207** | **1,740** | **49,753** | **54,700** |
| Gwarged/(Diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 27 | (337) | 5,521 | 5,211 |
| Incwm cynhwysfawr arall | 425 | - | 14,582 | 15,007 |
| Ailddyrannu Cronfeydd Wrth Gefn y Grŵp | - | - | 452 | 452 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr/(traul) ar gyfer y flwyddyn** | 452 | (337) | 20,555 | 20,670 |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2021** | **3,659** | **1,403** | **70,308** | **75,370** |

| | Cronfa Wrth Gefn Incwm a Gwariant | | | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|
| | Gwaddol £'000oedd | Cyfyngedig £'000oedd | Anghyfyngedig £'000oedd | £'000oedd |
| **Balans ar 1 Awst 2019** | **3,393** | **1,114** | **71,095** | **75,602** |
| (Diffyg)/gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | (4) | 626 | (1,851) | (1,229) |
| Incwm cynhwysfawr arall | (182) | - | (19,491) | (19,673) |
| **Cyfanswm (traul)/incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | (186) | 626 | (21,342) | (20,902) |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2020** | **3,207** | **1,740** | **49,753** | **54,700** |

## Prifysgol

| | Cronfa Wrth Gefn Incwm a Gwariant | | | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|
| | Gwaddol £'000oedd | Cyfyngedig £'000oedd | Anghyfyngedig £'000oedd | £'000oedd |
| **Balans ar 1 Awst 2020** | **732** | - | **48,583** | **49,315** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 7 | - | 3,102 | 3,109 |
| Incwm cynhwysfawr arall | 80 | - | 13,970 | 14,050 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | 87 | - | 17,072 | 17,159 |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2021** | **819** | - | **65,655** | **66,474** |

| | Cronfa Wrth Gefn Incwm a Gwariant | | | Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn |
|---|---|---|---|---|
| | Gwaddol £'000oedd | Cyfyngedig £'000oedd | Anghyfyngedig £'000oedd | £'000oedd |
| **Balans ar 1 Awst 2019** | **765** | - | **69,025** | **69,790** |
| Gwarged/(Diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 2 | - | (1,736) | (1,734) |
| Incwm cynhwysfawr arall | (35) | - | (18,706) | (18,741) |
| **Cyfanswm y draul gynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | (33) | - | (20,442) | (20,475) |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2020** | **732** | - | **48,583** | **49,315** |

# MANTOLENNI'R GRŴP CYFUN A'R BRIFYSGOL

| | Nodiadau | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Cyfun £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Prifysgol £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Cyfun £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Prifysgol £'000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Asedau anniriaethol | 11 | **819** | **735** | 956 | 886 |
| Ewyllys da negyddol sy'n deillio o gaffael | 12 | **(561)** | **-** | (594) | - |
| Asedau Sefydlog Diriaethol | 13 | **248,862** | **189,745** | 250,101 | 190,096 |
| Asedau treftadaeth | 14 | **500** | **-** | 500 | - |
| Buddsoddiadau | 15 | **-** | **2,056** | - | 2,056 |
| Asedau eraill | | **135** | **-** | 135 | - |
| | | **249,755** | **192,536** | 251,098 | 193,038 |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stocrestr | 16 | **163** | **75** | 249 | 78 |
| Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 17 | **13,512** | **16,953** | 17,548 | 23,009 |
| Buddsoddiadau | 18 | **141,192** | **127,111** | 103,443 | 92,907 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 24 | **18,092** | **8,799** | 13,870 | 4,747 |
| | | **172,959** | **152,938** | 135,110 | 120,741 |
| Llai: Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 19 | **(58,549)** | **(48,470)** | (43,998) | (34,989) |
| **Asedau cyfredol net** | | **114,410** | **104,468** | 91,112 | 85,752 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **364,165** | **297,004** | 342,210 | 278,790 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 20 | **(104,005)** | **(65,090)** | (101,178) | (61,555) |
| **Darpariaethau** | | | | | |
| Darpariaethau pensiwn | 21 | **(180,381)** | **(161,080)** | (181,762) | (163,638) |
| Darpariaethau eraill | 21 | **(4,409)** | **(4,360)** | (4,570) | (4,282) |
| **Cyfanswm yr asedau net** | | **75,370** | **66,474** | 54,700 | 49,315 |
| **Cronfeydd Wrth Gefn Cyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa Wrth Gefn Incwm a Gwariant – cronfa wrth gefn gwaddolion | 22 | **3,659** | **819** | 3,207 | 732 |
| Cronfa wrth gefn incwm a gwariant – cronfa gyfyngedig | 23 | **1,403** | **-** | 1,740 | - |
| **Cronfeydd Wrth Gefn Anghyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa wrth gefn incwm a gwariant – anghyfyngedig | | **70,308** | **65,655** | 49,753 | 48,583 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn** | | **75,370** | **66,474** | 54,700 | 49,315 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Corff Llywodraethu ar 29 Tachwedd 2021 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:

Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr

Is-Ganghellor

# DATGANIADAU CYFUN O LIFAU ARIAN PAROD

| | Nodiadau | Y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2021 £'000oedd | Y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2020 £'000oedd |
|---|---|---|---|
| **Llif arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn | | **5,211** | **(1,229)** |
| **Addasiad ar gyfer eitemau anariannol** | | | |
| Dibrisiant | 13 | 13,491 | 13,943 |
| Amorteiddio asedau anniriaethol | 11 | 182 | 174 |
| Ewyllys da negyddol yn sgil caffael Consortiwm Hyfforddiant Tudful | 12 | (33) | (33) |
| Lleihad yng ngwerth asedau sefydlog | 13 | - | 2,239 |
| Lleihad/(Cynnydd) mewn stoc | 16 | 86 | (98) |
| Lleihad/(Cynnydd) yn nifer y dyledwyr | 17 | 4,037 | (658) |
| Cynnydd/(Lleihad) yn nifer y credydwyr | 19 | 15,205 | (434) |
| Cynnydd mewn incwm gohiriedig | | 7,728 | 455 |
| Cynnydd mewn darpariaethau pensiwn | | 13,201 | 9,598 |
| Lleihad mewn darpariaethau eraill | 21 | (161) | (2,143) |
| **Addasiad ar gyfer buddsoddi neu ariannu gweithgareddau** | | | |
| Incwm buddsoddi | 5 | (571) | (1,260) |
| Llog sy'n daladwy | 8 | 2,385 | 4,150 |
| Incwm o waddolion | 22 | (3) | - |
| Cynnydd/(Lleihad) yng ngwerth buddsoddiadau gwaddolion ar y farchnad | 22 | 425 | (182) |
| Colled sy'n codi o waredu asedau sefydlog | | 726 | 710 |
| Incwm grant cyfalaf | | (2,528) | (2,427) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | 59,381 | 22,805 |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu buddsoddiadau | | (37,445) | (9,140) |
| Derbyniadau grantiau cyfalaf | | 2,528 | 2,427 |
| Incwm buddsoddi | 5 | 571 | 1,260 |
| Taliad i gaffael asedau eraill | | - | (135) |
| Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog | 13 | (12,978) | (10,282) |
| Taliadau a wnaed i gaffael asedau anniriaethol | 11 | (45) | (50) |
| Elw o werthu asedau sefydlog | | 140 | - |
| | | (47,229) | (15,920) |
| **Llifau arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Llog sy'n daladwy | 8 | (2,385) | (4,150) |
| Arian parod gwaddolion a dderbyniwyd | | 3 | - |
| Ad-dalu symiau a fenthyciwyd | | (5,548) | (2,937) |
| | | (7,930) | (7,087) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn** | | 4,222 | (202) |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 24 | 13,870 | 14,072 |
| Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn: | | | |
| Bondiau byrdymor | 24 | 1,856 | 1,865 |
| Adneuon byrdymor | 24 | 116 | 142 |
| Arian parod yn y Banc ac mewn llaw | 24 | 16,120 | 11,863 |
| **Cyfanswm** | | 18,092 | 13,870 |

POLISÏAU CYFRIFYDDU

## DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

### a) Sail Paratoi

Mae'r Datganiadau Ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r Datganiad Addysg Uwch o'r Arfer a Argymhellir (SORP 2019): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2015 ac yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol (FRS 102). Mae'r Grŵp a'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi cymhwyso gofynion budd cyhoeddus perthnasol FRS 102.

### b) Busnes Hyfyw

Nodir gweithgareddau'r Grŵp a'r rhiant-Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar eu datblygiad, eu perfformiad a'u sefyllfa yn y dyfodol, yn yr Adroddiad Strategol sy'n rhan o Adroddiad Bwrdd y Llywodraethwyr. Mae Adroddiad Bwrdd y Llywodraethwyr hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y Sefydliad, ei lifau arian, ei hylifedd a'i gyfleusterau benthyca.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw y mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn ystyried ei fod yn briodol am y rhesymau canlynol.

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr wedi paratoi rhagamcanion o lifau arian am gyfnod o 20 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Ar ôl adolygu'r rhagolygon hyn, mae Bwrdd y Llywodraethwyr o'r farn, gan ystyried dirywiadau difrifol ond tebygol, gan gynnwys effaith ddisgwyliedig COVID-19, bydd gan y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol ddigon o gronfeydd i gyflawni eu rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (y cyfnod asesu busnes hyfyw).

Gwnaethom fodelu tri senario incwm gwahanol fel rhan o'n gwaith cynllunio ariannol. Gwnaethom edrych ar wahanol lefelau o recriwtio myfyrwyr Domestig/UE a Thramor yn ogystal â myfyrwyr sy'n dychwelyd. Gwnaethom hefyd ystyried senarios ar gyfer incwm atodol is mewn perthynas â llety, arlwyo, cynadleddau a pharcio ceir, ond mae'r ffrydiau incwm hyn yn llawer llai arwyddocaol i'r Brifysgol nag incwm ffioedd dysgu. Ystyriwyd opsiynau lliniaru sy'n cynnwys gohirio rhaglenni gwariant cyfalaf a lleihau costau gwariant nad ydynt yn gysylltiedig â staff. Ar hyn o bryd, disgwylir i'n perfformiad gwirioneddol fod yn unol â'r senarios lleiaf negyddol ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Ar ddyddiad y fantolen roedd gan y Grŵp ddyled banc yn weddill o £50m. Roedd buddsoddiadau, arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn gyfanswm o £159m ar yr un dyddiad.

O ganlyniad, mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn hyderus y bydd gan y Grŵp a'r rhiant-Brifysgol ddigon o gronfeydd i barhau i gyflawni eu rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, ac felly mae wedi paratoi'r datganiadau ariannol fel busnes hyfyw.

### c) Sail Cyfuno

Mae'r Datganiadau Ariannol cyfun yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu wrth gyfuno.

Nid yw'r Datganiadau Ariannol cyfun yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr gan nad yw'r Brifysgol yn rheoli penderfyniadau polisi nac yn cael dylanwad cryf arnynt.

### d) Cydnabod Incwm

Mae incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau yn cael ei gredydu i'r Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr pan gaiff y nwyddau neu'r gwasanaethau eu cyflenwi i'r cwsmeriaid allanol neu pan gaiff telerau'r contract eu bodloni.

Mae incwm ffioedd yn cael ei ddatgan yn gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt a'i gredydu i'r Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnod y mae'r myfyrwyr yn astudio. Lle y lleiheir swm y ffi dysgu, drwy ddisgownt, dangosir incwm derbyniadwy yn glir o'r disgownt. Cyfrifir am fwrsarïau ac ysgoloriaethau yn gros fel gwariant ac nid ydynt yn cael eu didynnu o incwm.

Nid yw cyllid y mae'r Brifysgol yn ei dderbyn ac yn ei ad-dalu fel asiant talu ar ran corff cyllido wedi'i gynnwys yn incwm a gwariant y Brifysgol lle mae'r Brifysgol ond yn cael ei hamlygu i risg fach iawn neu ond yn cael budd economaidd bach iawn mewn cysylltiad â'r trafodyn.

Mae Grantiau'r Llywodraeth, gan gynnwys; grant bloc y cyngor cyllido; grantiau ymchwil o ffynonellau'r llywodraeth; grantiau a rhoddion eraill o ffynonellau anllywodraethol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnodau y mae'r Brifysgol yn cydnabod y costau cysylltiedig. Lle mae rhan o grant gan y Llywodraeth yn cael ei gohirio mae'n cael ei chydnabod fel incwm gohiriedig o fewn credydwyr a'i dyrannu rhwng credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn ac sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn fel y bo'n briodol.

Mae grantiau eraill, gan gynnwys grantiau ymchwil a rhoddion o ffynonellau anllywodraethol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y Brifysgol yr hawl i gael yr incwm a phan fydd amodau sy'n ymwneud â pherfformiad yn cael eu bodloni. Mae incwm a dderbynnir cyn i amodau sy'n ymwneud â pherfformiad gael eu bodloni yn cael ei ohirio ar y Fantolen a'i ryddhau i'r Datganiad Cyfun o Incwm pan gaiff amodau o'r fath eu bodloni.

Mae trafodion heb gyfnewid nac amodau sy'n ymwneud â pherfformiad yn cynnwys rhoddion a gwaddolion. Mae rhoddion a gwaddolion lle mae'r rhoddwr wedi gosod cyfyngiadau yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y Brifysgol yr hawl i gael yr Incwm. Mae incwm yn cael ei gadw yn y gronfa wrth gefn gyfyngedig nes iddo gael ei ddefnyddio yn unol â'r cyfryw gyfyngiadau ac yna caiff yr incwm ei ryddhau i gronfeydd wrth gefn cyffredinol drwy drosglwyddo o gronfa wrth gefn.

Mae incwm buddsoddi ac arbrisiant gwaddolion yn cael eu cofnodi mewn incwm yn y flwyddyn y mae'n codi ac fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol â thelerau cyfyngiadau eraill sy'n cael eu cymhwyso at y gronfa waddol.

Mae rhoddion heb gyfyngiadau yn cael eu cofnodi yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr pan fydd gan y Brifysgol yr hawl i gael yr incwm.

Mae rhoddion a gwaddolion sydd â chyfyngiadau yn cael eu dosbarthu fel cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gyda datgeliad ychwanegol yn y nodiadau i'r Datganiadau Ariannol.

Mae pedwar prif fath o roddion a gwaddolion sydd â chyfyngiadau:

1. Rhoddion cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod yn rhaid i'r rhodd gael ei defnyddio at amcan penodol.

2. Gwaddolion parhaol anghyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod yn rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol er mwyn cynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.

3. Gwaddolion gwariadwy cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol heblaw prynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, a gall y Brifysgol droi'r swm a roddwyd yn Incwm.

4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi nodi bod yn rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol er mwyn cynhyrchu ffrwd incwm i'w defnyddio at amcan penodol.

## e) Grantiau Cyfalaf

Mae grantiau cyfalaf a dderbynnir o ffynonellau'r llywodraeth heblaw grantiau cyfalaf ar gyfer tir yn cael eu gohirio a'u rhyddhau i'r Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr dros oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased cysylltiedig ar sail sy'n gyson â'r polisi ynglŷn â dibrisiant. Mae grantiau cyfalaf a dderbynnir o ffynonellau'r llywodraeth ar gyfer tir yn cael eu cofnodi mewn incwm pan fydd gan y Brifysgol yr hawl i gael yr incwm ar yr amod bod unrhyw amodau sy'n ymwneud â pherfformiad wedi cael eu bodloni.

Mae grantiau cyfalaf a dderbynnir o ffynonellau anllywodraethol yn cael eu cofnodi mewn incwm pan fydd gan y Brifysgol yr hawl i gael yr incwm ar yr amod bod unrhyw amodau sy'n ymwneud â pherfformiad wedi cael eu bodloni.

## f) Cyfrifyddu ar gyfer Buddiannau Ymddeol

Mae'r Brifysgol yn rhan o dri phrif gynllun buddiannau diffiniedig, Cynllun Pensiwn yr Athrawon (TSS), Cronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RCTPF) a Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS).

Mae USS a TSS yn gynllun aml-gyflogwr ac nid oes modd nodi asedau a rhwymedigaethau aelodau'r Brifysgol oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun ac felly cyfrifir am y cynllun fel cynllun buddiannau diffiniedig. Mae rhwymedigaeth yn cael ei chofnodi o fewn darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad cytundebol i ariannu diffygion blaenorol yn USS.

RCTPF - Mae rhwymedigaeth net y Grŵp mewn perthynas â chynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig (a buddiannau ôl-gyflogaeth eraill) yn cael ei chyfrifo ar wahân ar gyfer pob cynllun drwy amcangyfrif swm y buddiant yn y dyfodol y mae cyflogeion wedi'i ennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y flwyddyn gyfredol ac mewn blynyddoedd blaenorol. Mae'r buddiant hwnnw yn cael ei ddisgowntio er mwyn pennu ei werth presennol a gwerth teg asedau unrhyw gynllun (ar bris ymgynnig) ac unrhyw gostau gwasanaeth a roddwyd nas cydnabuwyd. Y gyfradd disgowntio rhwymedigaeth yw'r arenillion ar ddyddiad y fantolen ar fondiau â statws credyd yn arian cyfred y Grŵp, ac ar ôl ystyried dyddiadau aeddfedu sy'n agos i delerau rhwymedigaethau'r Grŵp.

Mae'r cyfrifiad yn cael ei wneud gan actiwari cymwysedig drwy ddefnyddio'r dull credyd uned amcanestynedig. Pan fydd y cyfrifiad yn arwain at fudd i'r Brifysgol, mae'r ased cydnabyddedig wedi'i gyfyngu i gyfanswm unrhyw gostau gwasanaeth a roddwyd nas cydnabuwyd; gwerth presennol buddiannau sydd ar gael ar ffurf unrhyw ad-daliadau o'r cynllun yn y dyfodol; gostyngiadau mewn cyfraniadau i'r cynllun yn y dyfodol neu ar adeg setliad y cynllun; ac mae'n ystyried effaith andwyol unrhyw ofynion ariannu sylfaenol.

## g) Buddiannau Cyflogeion

Mae buddiannau cyflogaeth byrdymor megis cyflogau a chyfnodau o absenoldeb wedi'u digolledu yn cael eu cydnabod fel traul yn y flwyddyn y mae'r cyflogeion yn rhoi gwasanaeth i'r Brifysgol. Mae unrhyw fuddiannau nas defnyddiwyd yn cael eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol y mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i'r hawliad nas defnyddiwyd.

## h) Prydlesau Cyllid

Mae prydlesau lle mae'r Brifysgol yn derbyn holl risgiau a buddiannau perchenogaeth o'r ased ar brydles i gryn raddau yn cael eu dosbarthu'n brydlesau cyllid. Mae asedau ar brydles a gaffaelir drwy brydles cyllid yn cael eu datgan fel swm sy'n hafal i'w gwerth teg a gwerth presennol yr isafswm taliadau prydles ar ddechrau'r brydles, pa un bynnag sydd isaf, llai dibrisiant cronedig a llai colledion cronedig oherwydd lleihad mewn gwerth. Cyfrifir am daliadau prydles fel y'i disgrifir isod. Mae isafswm taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr arwystl gyllid a'r gostyngiad yn y rhwymedigaeth sy'n weddill. Mae'r arwystl gyllid yn cael ei dyrannu i bob cyfnod yn ystod cyfnod y brydles er mwyn cynhyrchu cyfradd llog gyfnodol gyson ar yr hyn sy'n weddill o'r rhwymedigaeth.

## i) Prydlesau Gweithredu

Codir costau mewn perthynas â phrydlesau gweithredu ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Mae premiymau neu gymhellion unrhyw brydles yn ymestyn dros isafswm cyfnod y brydles.

## j) Arian Cyfred Tramor

Mae trafodion mewn arian cyfred tramor yn cael eu trosi'n arian cyfred gweithredol priodol endidau'r Grŵp yn ôl y gyfradd gyfnewid dramor a ddyfarnwyd ar ddyddiad y trafodyn. Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol mewn arian cyfred tramor ar ddyddiad y fantolen yn cael eu haildrosi i'r arian cyfred gweithredol, y bunt Brydeinig (GBP), yn ôl y gyfradd gyfnewid dramor a ddyfarnwyd ar y dyddiad hwnnw. Mae gwahaniaethau cyfnewid tramor sy'n codi ar adeg trosi yn cael eu cydnabod yn y datganiad incwm. Mae asedau a rhwymedigaethau anariannol sy'n cael eu mesur yn nhermau cost hanesyddol mewn arian cyfred tramor yn cael eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodyn. Mae asedau a rhwymedigaethau anariannol sydd wedi'u dosbarthu mewn arian cyfred tramor sy'n cael eu datgan ar werth teg yn ôl y gyfradd gyfnewid dramor a ddyfarnwyd ar y dyddiadau y pennwyd y gwerth teg.

Mae gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi o drosi gweithrediadau tramor yn cael eu nodi fel eitem o incwm cynhwysfawr arall.

## k) Asedau Sefydlog

Mae asedau sefydlog yn cael eu datgan ar gost wirioneddol llai dibrisiant cronedig a cholledion cronedig oherwydd lleihad mewn gwerth. Mae eitemau penodol o asedau sefydlog a ailbrisiwyd i'w gwerth teg ar 1 Awst 2014, y dyddiad y newidiwyd i SORP, yn cael eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm a ailbrisiwyd ar ddyddiad yr ailbrisiad hwnnw.

Lle mae gan rannau o ased sefydlog oes ddefnyddiol wahanol, cyfrifir amdanynt fel eitemau o asedau sefydlog ar wahân.

Mae gwariant yr eir iddo mewn perthynas â thir ac adeiladau ar ôl eu prynu neu eu hadeiladu ar y cychwyn, a chyn eu prisio, yn cael eu cyfalafu i'r graddau y maent yn cynyddu'r buddiannau disgwyliedig i'r Brifysgol yn y dyfodol. Mae gwariant nad yw'n gwella eitem y tu hwnt i'w chyflwr gwreiddiol nac yn cynyddu ei hoes economaidd ddisgwyliedig yn cael ei godi i'r Cyfrif Incwm a Gwariant.

Nid yw tir rhydd-ddaliadol yn cael ei ddibrisio am yr ystyrir bod ganddo oes ddefnyddiol amhenodol. Mae adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Adeiladau Rhydd-ddaliadol – Hyd at 50 mlynedd
Offer a Pheiriannau – 3 i 5 mlynedd
Gosodiadau a Ffitiadau – 3 i 25 mlynedd

Ni chodir unrhyw ddibrisiant ar asedau sy'n cael eu hadeiladu.

Mae cyfarpar, gan gynnwys cyfrifiaduron, sy'n costio llai na £5,000 fesul eitem unigol, yn cael ei ddileu yn y flwyddyn y cafodd ei gaffael. Lle mae'r ased a gwblhawyd yn cynnwys nifer o elfennau sy'n angenrheidiol er mwyn i'r ased weithredu yn ôl y bwriad, yna gellir defnyddio'r gwerth cyfunol er mwyn penderfynu a yw'r trothwy cyfalafu ased wedi'i gyrraedd. Mae pob math o gyfarpar arall yn cael ei gyfalafu.

Mae dulliau dibrisio, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yn cael eu hadolygu ar ddyddiad paratoi pob Mantolen.

Adolygir asedau sefydlog am ddangosyddion lleihad mewn gwerth ar ddyddiad y fantolen, ac os bydd dangosydd lleihad mewn gwerth cynhelir adolygiad llawn o leihad mewn gwerth.

## l) Asedau Treftadaeth

Mae asedau treftadaeth yn asedau diriaethol sydd â nodweddion hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol, a ddelir neu a gynhelir yn bennaf oherwydd eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Asedau treftadaeth yw'r asedau hynny, y bwriedir iddynt gael eu cadw mewn ymddiriedaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol a hanesyddol.

Mae asedau treftadaeth wedi'u cyfalafu i'w fantolen yn ôl eu cost gychwynnol. Caiff asedau treftadaeth a roddir eu cofnodi yn ôl prisiad amcangyfrifedig ar y dyddiad y'i rhoddir oni fydd hynny'n anymarferfol, pan gaiff natur a maint y rhoddion hyn eu diogelu'n briodol.

Ni chaiff asedau treftadaeth eu dibrisio am fod eu hoes economaidd hirdymor a'u gwerth gweddilliol uchel yn golygu y byddai unrhyw ddibrisiant yn amherthnasol.

Adolygir asedau treftadaeth am ddangosyddion lleihad mewn gwerth ar ddyddiad y fantolen, ac os bydd dangosydd lleihad mewn gwerth cynhelir adolygiad llawn o leihad mewn gwerth.

## m) Costau benthyca

Mae costau benthyca y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael, adeiladu neu gynhyrchu ased cymwys yn cael eu cyfalafu.

## n) Asedau anniriaethol

Mae meddalwedd gyfrifiadurol yn cael ei datgan ar gost llai amorteiddiad cronedig a cholledion cronedig oherwydd lleihad mewn gwerth. Mae meddalwedd yn cael ei hamorteiddio dros ei hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, o rhwng tair a deng mlynedd, ar sail llinell syth.

Mae meddalwedd sy'n costio llai na £250,000 yn cael ei dileu ar y dyddiad y cafodd ei chaffael.

Lle mae ffactorau, megis datblygiadau technolegol neu newidiadau yn y pris ar y farchnad, yn nodi bod gwerth gweddilliol neu oes ddefnyddiol wedi newid, mae'r gwerth gweddilliol , yr oes ddefnyddiol neu'r gyfradd amorteiddio yn cael eu newid yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu'r amgylchiadau newydd. Mae'r asedau'n cael eu hadolygu o ran lleihad mewn gwerth os yw'r ffactorau uchod yn nodi bod gwerth y swm cario wedi lleihau o bosibl.

**Ewyllys da negyddol**
Mae Ewyllys Da Negyddol yn codi wrth gyfuno, ac mae'n seiliedig ar y gwahaniaeth rhwng gwerth teg y gydnabyddiaeth a roddwyd am y fenter a gaffaelwyd a gwerth teg ei hasedau net gwahanadwy ar y dyddiad y'i caffaelwyd.

Caiff Ewyllys Da Negyddol ei amorteiddio dros 20 mlynedd sy'n cynrychioli gweddill yr oes economaidd amcangyfrifedig y mae'n ymwneud â hi. Fe'i cydnabyddir yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnodau y disgwylir iddynt elwa.

Adolygir asedau anniriaethol am ddangosyddion lleihad mewn gwerth ar ddyddiad y fantolen, ac os bydd dangosydd lleihad mewn gwerth cynhelir adolygiad llawn o leihad mewn gwerth.

## o) Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau anghyfredol yn cael eu dal ar y Fantolen ar gost wedi'i hamorteiddio llai lleihad mewn gwerth. Mae buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd, cwmnïau cyswllt ac is-gwmnïau yn cael eu cario ar gost llai Lleihad mewn Gwerth yng nghyfrifon y Brifysgol.

Adolygir buddsoddiadau anghyfredol am ddangosyddion lleihad mewn gwerth ar ddyddiad y fantolen, ac os bydd dangosydd lleihad mewn gwerth cynhelir adolygiad llawn o leihad mewn gwerth. Mae buddsoddiadau asedau cyfredol yn cael eu dal ar werth teg gyda symudiadau'n cael eu cydnabod yn y Datganiad Cyfun o Incwm a Gwariant.

## p) Stocrestr

Mae stocrestr yn cael ei dal ar gost a gwerth gwireddadwy net, pa un sydd isaf, a'i mesur gan ddefnyddio fformiwla cost gyfartalog.

## q) Offerynnau ariannol

Mae asedau ariannol yn cynnwys symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, buddsoddiadau asedau cyfredol, ac arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod.

Cydnabyddir symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill ar sail gwerth y trafodyn i ddechrau, ac yna fe'u mesurir ar sail eu cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Pan fydd amheuaeth ynghylch a ellir adennill dyledwr, darperir y swm ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol llifau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol.

Mae buddsoddiadau asedau cyfredol yn cynnwys bondiau corfforaethol a thystysgrifau adnau sydd ag aeddfedrwydd dros 3 mis o'u caffael. Fe'u cydnabyddir i ddechrau ar sail costau ac yna fe'u mesurir ar sail gwerth teg, gydag unrhyw enillion neu golledion yn cael eu cydnabod yn y datganiad o incwm. Mae rhwymedigaethau ariannol yn cynnwys symiau masnach a symiau taladwy eraill, benthyciadau banc, a benthyciadau consesiynol budd cyhoeddus.

Cydnabyddir symiau masnach a symiau taladwy eraill a benthyciadau banc ar sail gwerth y trafodyn a addesir am unrhyw gost trafodyn y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol, ac yna fe'u mesurir ar sail eu cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Ystyrir benthyciadau nad ydynt yn cronni llog neu lle codir llog islaw cyfradd y farchnad yn fenthyciadau consesiynol endid budd cyhoeddus. Cydnabyddir y benthyciadau hyn i ddechrau ar sail y swm o arian parod a gafwyd ac fe'u haddesir wedyn i adlewyrchu faint o log cronedig sy'n daladwy.

## r) Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar gais a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn 24 awr heb gosb.

Mae symiau sy'n cyfateb i arian parod yn fuddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gellir eu troi'n symiau hysbys o arian parod yn hawdd gyda risg fach o newid mewn gwerth.

## s) Darpariaethau, rhwymedigaethau digwyddiadol ac asedau digwyddiadol

Mae darpariaethau'n cael eu cydnabod yn y datganiadau ariannol:

(a) pan fydd gan y Brifysgol rwymedigaeth bresennol (cyfreithiol neu ddeongliadol) o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol;

(b) pan fydd yn debygol y bydd angen all-lif o fuddiannau economaidd i setlo'r rhwymedigaeth;

(c) pan fydd modd llunio amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pennir y swm a gydnabyddir fel darpariaeth drwy ddisgowntio'r llifau arian disgwyliedig yn y dyfodol ar gyfradd cyn treth sy'n adlewyrchu'r risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth.

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n gosod rhwymedigaeth o bosibl ar y Brifysgol na fydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau oni fydd digwyddiadau ansicr yn digwydd ai peidio yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Brifysgol. Mae rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle y byddai darpariaeth fel arall yn cael ei gwneud ond nad yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu nad oes modd mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Mae ased digwyddiadol yn codi pan fydd rhywbeth wedi digwydd sy'n rhoi ased i'r Brifysgol o bosibl ac na fydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau oni fydd digwyddiadau ansicr yn digwydd ai peidio yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Brifysgol.
Nid yw asedau na rhwymedigaethau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen ond maent yn cael eu datgelu yn y nodiadau.

## t) Trethiant

Mae'r Brifysgol yn elusen eithriedig o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Elusennau 2011. Felly, mae'n elusen o fewn ystyr Para 1 o atodlen 6 i Ddeddf Cyllid 2010 ac yn unol â hynny, mae'r Brifysgol wedi'i heithrio o bosibl rhag trethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbynnir o fewn categorïau a gwmpesir gan adran 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 neu adran 256 o Ddeddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y mae'r cyfryw incwm neu enillion yn cael eu cymhwyso at ddibenion elusennol yn unig.
Nid yw'r Brifysgol wedi'i heithrio mewn perthynas â Threth ar Werth. Mae TAW anadenilladwy wrth brynu wedi'i chynnwys yng nghostau'r cyfryw bryniannau. Mae unrhyw TAW anadenilladwy a ddyrennir i asedau sefydlog wedi'i chynnwys yn eu cost.

Yr unig daliad Treth Gorfforaeth a adlewyrchir yn y wybodaeth ariannol gyfun yw'r dreth a ddidynnwyd yn y tarddiad gan CThEM mewn perthynas â Chredydau Gwariant Ymchwil a Datblygu a gydnabyddir yn y Datganiad Cyfun o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn.

## u) Cronfeydd Wrth Gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu dyrannu rhwng cronfeydd wrth gefn cyfyngedig ac anghyfyngedig. Mae cronfeydd wrth gefn cyfyngedig ar gyfer gwaddolion yn cynnwys balansau, drwy waddol i'r Brifysgol sy'n cael eu dal fel cronfa gyfyngedig barhaol gan fod yn rhaid i'r Brifysgol ddal y gronfa am byth.

Mae cronfeydd wrth gefn cyfyngedig eraill yn cynnwys balansau y mae'r rhoddwr wedi dynodi diben penodol iddynt ac felly mae'r Brifysgol o dan gyfyngiadau wrth ddefnyddio'r cronfeydd hyn.

# DEFNYDDIO AMCANGYFRIFON A LLUNIO BARN

Wrth baratoi Datganiadau Ariannol mae'n rhaid i reolwyr lunio barn, amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y ffordd y cymhwysir polisïau cyfrifyddu a'r symiau o asedau, rhwymedigaethau, incwm a threuliau a nodir. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Caiff amcangyfrifon a thybiaethau sylfaenol eu hadolygu'n barhaus. Mae diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y cafodd yr amcangyfrif ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnodau yn y dyfodol yr effeithir arnynt.

Mae'r Grŵp yn rhan o ddau gynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig ychwanegol, sef Scottish Widows a NEST.

## 1. PENSIWN

Mae'r Brifysgol yn rhan o dri phrif gynllun phrif gynllun buddiannau diffiniedig, Cynllun Pensiwn yr Athrawon (TSS), Cronfa Bensiwn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RCTPF) a Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS). Manylir ar y tybiaethau a wnaed yn Nodyn 29.

Bu dau achos llys sy'n effeithio ar Gynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig Llywodraeth Leol. Maent yn ymwneud â chydraddoli isafswm pensiynau gwarantedig a gwahaniaethu ar sail oedran (McCloud). Ni wyddom eto beth fydd effaith yr achosion hyn ond, ar ôl cael cyngor actiwaraidd, mae darpariaeth wedi'i chynnwys fel rhan o'r tybiaethau ynglŷn â Nodyn 29.

## 2. DARPARIAETH AR GYFER PENSIYNAU YCHWANEGOL

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer pensiynau ychwanegol wedi cynyddu ychydig o £7.0m i £7.4m ar gyfer y Grŵp ac o £6.1m i £6.4m ar gyfer y Brifysgol. Mae'r ddarpariaeth hon yn ymwneud â'r rhwymedigaeth i ychwanegu at bensiynau cyflogeion blaenorol o dan drefniadau ymddeol yn gynnar.

Mae'r rhwymedigaeth wedi cael ei chyfrifo gan actiwari'r cynllun a chyfrifir amdani yn unol â FRS102 fel y'i rhagnodwyd gan y Datganiad i'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch 2019.

## 3. DADFEILIADAU

Cynhaliwyd adolygiad o'r eiddo rydym yn ei rentu ar brydles er mwyn amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â'r adeiladau hyn yn dadfeilio. Defnyddiwyd cost fesul troedfedd sgwâr i gyfrifo'r ddarpariaeth, sydd wedi'i chynnwys yn ystod y flwyddyn.

## 4. CYFUNO – UNDEB Y MYFYRWYR

Nid yw Undeb y Myfyrwyr wedi cael ei gyfuno â Datganiad Ariannol y Grŵp gan na thybir bod y Brifysgol yn cael dylanwad sylweddol ar bolisïau gweithredol ac ariannol Undeb y Myfyrwyr er mwyn iddo gael ei ystyried yn Gwmni Cyswllt neu'n Is-gwmni.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

## 1. Ffioedd dysgu a chontractau addysg

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd | Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd |
| Myfyrwyr llawn amser y DU a'r UE | **109,739** | **101,991** | 108,211 | **100,680** |
| Myfyrwyr rhyngwladol llawn amser | **20,982** | **19,194** | 19,933 | **18,225** |
| Myfyrwyr rhan amser | **9,146** | **7,150** | 9,975 | **7,896** |
| **Cyfanswm** | 139,867 | 128,335 | 138,119 | 126,801 |

## 2. Grantiau gan y corff cyllido

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd | Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd |
| **Grant rheolaidd** | | | | |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | **13,215** | **9,600** | 14,340 | 10,855 |
| APADGOS | **12,550** | - | 10,744 | - |
| **Grantiau penodol** | | | | |
| Arall | **4,999** | **4,743** | 2,384 | 2,004 |
| Grant cyfalaf | **1,913** | **904** | 1,912 | 1,000 |
| **Cyfanswm** | 32,677 | 15,247 | 29,380 | 13,859 |

## 3. Grantiau a chontractau ymchwil

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd | Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd |
| Cynghorau ymchwil | 950 | 950 | 682 | 682 |
| Elusennau ymchwil | 101 | 90 | 169 | 145 |
| Llywodraeth (y DU a thramor) | 1,877 | 1,690 | 1,994 | 1,659 |
| Diwydiant a masnach | 2,386 | 385 | 2,156 | 405 |
| Arall | 2,932 | 2,910 | 3,474 | 3,454 |
| **Cyfanswm** | 8,246 | 6,025 | 8,475 | 6,345 |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

## 4. Incwm arall

| | Notes | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Cyfun £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Prifysgol £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Cyfun £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Prifysgol £'000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety, arlwyo a chynadleddau | | **2,351** | **2,236** | 5,915 | 5,554 |
| Grantiau cyfalaf eraill | | **615** | **460** | 515 | 467 |
| Incwm arall | | **14,801** | **9,926** | 13,290 | 11,618 |
| Rhyddhau ewyllys da negyddol sy'n deillio o gaffaeliadau | | **33** | - | 33 | - |
| **Cyfanswm** | | **17,800** | **12,622** | 19,753 | 17,639 |

## 5. Incwm buddsoddi

| | Notes | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Cyfun £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Prifysgol £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Cyfun £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Prifysgol £'000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Incwm buddsoddi sy'n codi o waddolion | 22 | **74** | **12** | 81 | 17 |
| Incwm buddsoddi arall | | **497** | **491** | 1,179 | 1,158 |
| **Cyfanswm** | | **571** | **503** | 1,260 | 1,175 |

## 6. Rhoddion a gwaddolion

| | Notes | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Cyfun £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Prifysgol £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Cyfun £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Prifysgol £'000oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwaddolion newydd | 22 | **3** | - | - | - |
| Rhoddion â chyfyngiadau | 23 | **672** | - | 1,287 | - |
| Rhoddion anghyfyngedig | | **376** | - | 558 | - |
| **Cyfanswm** | | **1,051** | - | 1,845 | - |

## 7. Costau staff

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Cyfun £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Prifysgol £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Cyfun £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Prifysgol £'000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | **84,892** | **69,795** | 85,881 | 71,079 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **8,438** | **7,068** | 8,477 | 7,208 |
| Symudiad ar ddarpariaeth USS | **(36)** | **(36)** | (290) | (290) |
| Costau pensiwn eraill | **27,013** | **22,702** | 24,392 | 20,773 |
| **Cyfanswm** | **120,307** | **99,529** | 118,460 | 98,770 |

| | Year ended 31 July 2021 £'000s | Year ended 31 July 2020 £'000s |
|---|---|---|
| **Enillion yr Is-Ganghellor:** | | |
| Cyflog blynyddol | **229** | 229 |
| Buddiannau | **3** | 4 |
| | **232** | 233 |

## 7. Costau staff (parhad)

| Cydnabyddiaeth yr Is-Ganghellor wedi'i mynegi fel: | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 £'000oedd |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol fel cymhareb o gyflog sylfaenol canolrifol pob aelod o staff | **6.38** | 6.58 |
| Cyfanswm y gydnabyddiaeth fel cymhareb o gyfanswm cydnabyddiaeth pob aelod o staff | **6.43** | 6.69 |

Pennir cydnabyddiaeth yr Is-Ganghellor gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, sy'n cynnwys aelodau lleyg annibynnol o'r Cyngor sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd perthnasol. Nid yw'r Is-Ganghellor yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor ac nid yw'n chwarae unrhyw ran yn y trafodaethau a'r penderfyniadau ynghylch ei chydnabyddiaeth ei hun;

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn pennu'r gydnabyddiaeth yn ôl nifer o ffactorau gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Profiad yr Is-Ganghellor o arwain a rheoli a'i brofiad academaidd yn y sector addysg uwch
- Ehangder cyfrifoldebau arwain a chyfrifoldebau ariannol ar gyfer y Brifysgol
- Meincnodi'r cyflog sylfaenol yn erbyn cyflog blynyddol Prifysgolion a sefydliadau eraill o faint tebyg yng Nghymru a sefydliadau â chenhadaeth debyg
- Perfformiad y Brifysgol yn ôl y strategaeth a metrigau y cytunwyd arnynt

Ceir rhagor o fanylion am gydnabyddiaeth yr Is-Ganghellor ar dudalen 34.

.

| Cydnabyddiaeth aelodau eraill o'r staff ar gyflog uwch, heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr: | Nifer | Nifer |
|---|---|---|
| £100,000 i £104,999 | **4** | 5 |
| £105,000 i £109,999 | **2** | 1 |
| £110,000 i £114,999 | **-** | 1 |
| £115,000 i £119,999 | **2** | 2 |
| £120,000 i £124,999 | **-** | - |
| £125,000 i £129,999 | **1** | 1 |
| £130,000 i £134,999 | **1** | - |
| £135,000 i £139,999 | **1** | 1 |
| £140,000 i £144,999 | **-** | - |
| £145,000 i £149,999 | **-** | - |
| £150,000 i £154,999 | **1** | 1 |
| | **12** | 12 |

**Personél rheoli allweddol**

Mae'r Brifysgol yn ystyried mai'r personél rheoli allweddol yw'r 8 unigolyn (2020 – 8) sy'n gwasanaethu fel aelodau o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol ac sydd â'r awdurdod a'r cyfrifoldeb am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r Brifysgol. Mae'r costau staff yn cynnwys iawndal a dalwyd i bersonél rheoli allweddol.

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 £'000oedd |
|---|---|---|
| **Digolledu personél rheoli allweddol** | **1,233** | 1,145 |

| Staff Annodweddiadol | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 £'000oedd |
|---|---|---|
| Staff Asiantaeth | **812** | 709 |
| Staff Hunangyflogedig | **946** | 768 |
| | **1,758** | 1,477 |

| Niferoedd staff ar gyfartaledd yn ôl prif gategori: | Nifer | Nifer |
|---|---|---|
| Adrannau Academaidd | **1,178** | 1,217 |
| Gwasanaethau Academaidd | **290** | 296 |
| Llety, Arlwyo a Chynadleddau | **77** | 82 |
| Safleoedd | **70** | 71 |
| Gwasanaethau Gweinyddu a Chanolog | **426** | 430 |
| | **2,041** | 2,096 |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

## 8. Llog a chostau cyllid eraill

| | Nodiadau | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Cyfun £'000oedd | University £'000s |
|---|---|---|---|---|---|
| Llog benthyciadau | | **2,385** | **2,065** | 4,150 | 3,822 |
| Taliad net ar gynlluniau pensiwn | | **2,490** | **2,247** | 3,285 | 2,949 |
| **Cyfanswm** | | **4,875** | **4,312** | 7,435 | 6,771 |

## 9. Dadansoddiad o gyfanswm y gwariant yn ôl gweithgarwch

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Adrannau Academaidd | 81,121 | 65,756 | 84,456 | 69,844 |
| Gwasanaethau Academaidd | 32,464 | 30,457 | 31,743 | 29,878 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 6,509 | 6,509 | 6,551 | 6,551 |
| Llety, arlwyo a chynadleddau | 4,816 | 4,247 | 5,385 | 4,873 |
| Safleoedd | 23,504 | 19,118 | 26,441 | 22,548 |
| Gwasanaethau Gweinyddu a Chanolog | 25,475 | 19,852 | 21,358 | 16,121 |
| Gweithgareddau ymgynghori, hyfforddi a masnachol | 5,391 | - | 5,757 | - |
| Treuliau eraill | 15,154 | 13,068 | 17,686 | 17,519 |
| **Cyfanswm** | **194,434** | **159,007** | **199,377** | **167,334** |

| **Mae treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:** | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth archwilwyr allanol mewn perthynas â gwasanaethau archwilio | **142** | **67** | 131 | 66 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr allanol mewn perthynas â gwasanaethau nad ydynt yn rhai archwilio | **27** | **12** | 91 | 82 |
| **Rhenti prydlesau gweithredol** | | | | |
| Tir ac adeiladau | **637** | **525** | 554 | 444 |
| Arall | **178** | **17** | 132 | 19 |

## 10. Trethiant

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 Cyfun £'000oedd | Prifysgol £'000oedd |
|---|---|---|---|---|
| Credyd Gwariant Ymchwil a Datblygu | **19** | **-** | 4 | - |
| **Cyfanswm** | **19** | **-** | 4 | - |

## 11. Asedau anniriaethol

| | Cyfun | | Prifysgol | |
|---|---|---|---|---|
| | **Meddalwedd £'000** | **Cyfanswm £'000oedd** | Meddalwedd £'000 | Cyfanswm £'000oedd |
| **Cost** | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | **1,724** | **1,724** | 1,503 | 1,503 |
| Ychwanegiadau | **45** | **45** | - | - |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **1,769** | **1,769** | 1,503 | 1,503 |
| **Amorteiddiad Cronedig** | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | **768** | **768** | 617 | 617 |
| Taliad ar gyfer y flwyddyn | **182** | **182** | 150 | 150 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **950** | **950** | 768 | 768 |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2021** | **819** | **819** | 735 | 735 |
| Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2020 | **956** | **956** | 886 | 886 |

## 12. Ewyllys da negyddol sy'n deillio o'r caffaeliadau

| | **Cyfanswm Cyfun £'000oedd** |
|---|---|
| Gwerth teg ar adeg ei gaffael | **660** |
| Cydnabyddiaeth a dalwyd | **-** |
| **Cost** | |
| **Ar 1 Awst 2020** | **660** |
| Rhyddhawyd i'r datganiad o incwm cynhwysfawr | |
| Ar 1 Awst 2020 | **(66)** |
| Rhyddhau ar gyfer y flwyddyn | **(33)** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **561** |
| **Swm cario** | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **561** |
| Ar 31 Gorffennaf 2020 | **594** |

Ar 1 Awst 2018, caffaelodd Coleg Merthyr Tudful Gonsortiwm Hyfforddiant Tudful Cyfyngedig, sef cwmni elusennol sy'n ymwneud yn bennaf â darparu dysgu seiliedig ar waith. Y cyfnod amorteiddio yw 20 mlynedd.

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

## 13. Asedau Sefydlog Anniriaethol

| Cyfun | Tir ac Adeiladau rhydd-ddaliadol £'000 | Offer a Pheiriannau £'000s | Gosodiadau a Ffitiadau £'000s | Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu £'000s | Cyfanswm £'000s |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | 306,821 | 54,909 | 24,204 | 2,978 | 388,912 |
| Ychwanegiadau | 161 | 4,210 | 620 | 7,987 | 12,978 |
| Trosglwyddiadau | 34 | 596 | 300 | (929) | - |
| Gwarediadau | - | (1,025) | (314) | - | (1,339) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **307,016** | **58,690** | **24,809** | **10,036** | **400,551** |
| **Cynnwys prisiad ar:** | | | | | |
| 31 Gorffennaf 2021 | 2,684 | - | - | - | 2,684 |
| Cost | 304,132 | 58,690 | 24,809 | 10,036 | 397,866 |
| | **307,016** | **58,690** | **24,809** | **10,036** | **400,550** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | 86,603 | 35,145 | 17,063 | - | 138,811 |
| Taliad ar gyfer y flwyddyn | 6,795 | 5,439 | 1,257 | - | 13,491 |
| Gwaredu | - | (468) | (145) | - | (613) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **93,398** | **40,116** | **18,175** | - | **151,689** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2021** | **213,618** | **18,574** | **6,634** | **10,036** | **248,862** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2020 | 220,218 | 19,764 | 7,141 | 2,978 | 250,101 |

| Prifysgol | Tir ac Adeiladau rhydd-ddaliadol £'000 | Offer a Pheiriannau £'000s | Gosodiadau a Ffitiadau £'000s | Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu £'000s | Cyfanswm £'000s |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | 242,463 | 35,616 | 18,621 | 1,957 | 298,657 |
| Ychwanegiadau | 161 | 794 | 261 | 9,008 | 10,225 |
| Trosglwyddiadau | 34 | 596 | 300 | (929) | - |
| Gwarediadau | - | (952) | (247) | - | (1,199) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **242,658** | **36,054** | **18,935** | **10,036** | **307,683** |
| **Cynnwys prisiad ar:** | | | | | |
| Cost | 242,658 | 36,054 | 18,935 | 10,036 | 307,683 |
| | **242,658** | **36,054** | **18,935** | **10,036** | **307,683** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | 73,136 | 22,823 | 12,602 | - | 108,561 |
| Taliad ar gyfer y flwyddyn | 5,694 | 3,376 | 890 | - | 9,960 |
| Gwaredu | - | (438) | (145) | - | (583) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **78,830** | **25,761** | **13,347** | - | **117,938** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2021** | **163,828** | **10,293** | **5,588** | **10,036** | **189,745** |
| Gwerth llyfr net ar 31 Gorffennaf 2020 | 169,327 | 12,793 | 6.019 | 1,957 | 190,096 |

## 13. Asedau Sefydlog Diriaethol (parhad)

**Lleihad mewn Gwerth**
Mae'r Brifysgol yn edrych am arwyddion o leihad yng ngwerth ei hasedau ar ddyddiad y fantolen bob blwyddyn. Nid yw cynlluniau yn defnyddio rhai asedau penodol mwyach lle dynodwyd lleihad mewn gwerth posibl ar ddyddiad y fantolen. Defnyddiwyd dull gwerth defnydd i gyfrifo mewnlifau ac all-lifau arian parod gostyngedig disgwyliedig, a gymharwyd wedyn â gwerthoedd cario'r asedau. Mae'r taliadau lleihad mewn gwerth yn adlewyrchu'r tâl sydd ei angen i sicrhau bod gwerthoedd presennol net y llifau arian hynny a gwerthoedd cario'r asedau hynny yn unol â dyddiad y fantolen.

**Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol**
Cafodd tir ac adeiladau eu hailbrisio ar 31 Gorffennaf 1998 ac adlewyrchir y prisiad hwn yn ffigurau'r balans agoriadol, heblaw am dir a ailbrisiwyd o dan FRS102 ar 1 Awst 2014. Dangosir pob ased sefydlog arall ar gost. Ar wahân i'r tir a ailbrisiwyd, o dan FRS15 mae'r Brifysgol wedi dewis rhewi prisiadau ar eu gwerthoedd cychwynnol, heb eu hailbrisio ymhellach, a thrin y gwerthoedd hyn fel pwynt sylfaenol ar gyfer dibrisio yn y dyfodol.

O ganlyniad i Ddeddf Diwygio Addysg 1988, cafodd y buddiant rhydd-ddaliadol mewn tir ac adeiladau a feddiennir gan y Brifysgol a'r teitl i asedau eraill eu trosglwyddo'n ffurfiol i'r Brifysgol ar y dyddiad corffori. Mae'r tir a'r adeiladau ar 31 Gorffennaf 1998 wedi'u cynnwys ar y Fantolen yn ôl eu prisiad ar y dyddiad, heblaw am dri a ailbrisiwyd ar 1 Awst 2014. Cynhaliwyd y prisiad ar 31 Gorffennaf 1998 gan y Meistri Cooke & Arkwright, Syrfewyr Siartredig, y sail cyfalafu oedd cost adnewyddu wedi'i dibrisio, heblaw am safleoedd domestig lleol a gafodd eu caffael a'u troi'n swyddfeydd gan y Brifysgol, lle y defnyddiwyd prisiad ar y farchnad agored. Cafodd tir ei brisio ar 1 Awst 2014 gan Syrfewyr Siartredig Cooke & Arkwright, ar sail prisiad ar y farchnad agored.

**"Wedi'i ariannu gan y Trysorlys"**
